# Cynllun Blynyddol 2011/12

Dyddiad Cyhoeddi: 4 Ebrill 2011

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb gweithredol | 3 |
| 2 | Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian | 6 |
| 3 | Blaenoriaethau ar gyfer 2011/12 | 9 |
| 4 | Prif feysydd gwaith eraill ar gyfer 2011/12 | 18 |
| 5 | Gwasanaethau i randdeiliaid | 32 |
| 6 | Agwedd Ofcom at reoleiddio | 35 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad | 38 |

## Adran 1

# Crynodeb gweithredol

## Ein rhaglen waith ar gyfer 2011/12

1.1 Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn rhoi ein dibenion strategol, ein blaenoriaethau a’n rhaglen waith ar gyfer y deuddeg mis rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012.

1.2 Datblygwyd ein cynllun ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid. Codwyd nifer o faterion yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad. Ymatebwyd i’r rhain yn y cynllun ei hun a hefyd yn fanylach yn yr atodiad. Ochr yn ochr â’r cynllun hwn rydym wedi cyhoeddi tabl ar ein gwefan[1] sy’n gosod allan ein rhaglen waith.

1.3 Prif ddyletswydd Ofcom yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth.

1.4 Mae’r brif ddyletswydd hon wedi’i hymgorffori yn ein pum diben strategol. Sef:

- Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy.
- Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon.
- Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr.
- Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau.
- Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a’i weithredu.

1.5 Mae'n bwysig ein bod yn gallu asesu ein cynnydd yn unol â’r dibenion strategol hyn. Felly, rydym wedi pennu canlyniadau clir a chadarnhaol rydym yn ceisio eu sicrhau ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr.

## Sialensiau economaidd ehangach

1.6 Mae *Adolygiad o Wariant 2010* y llywodraeth yn cynnwys ei chynlluniau i fynd i'r afael â chyllid cyhoeddus y DU. Rhaid i ni leihau ein gwariant dros y pedair blynedd nesaf gyda’r rhan fwyaf o'r arbedion yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn gyntaf. Erbyn 2014/15 byddwn yn cyflawni arbediad termau real gwerth 28.2% ar gap cyllido presennol Ofcom sef £143m.

1.7 Rydym wedi adolygu sut rydym yn rheoleiddio'n effeithiol ac mewn ffordd wedi'i thargedu, gan geisio sicrhau gwerth am arian yr un pryd. Rydym wedi dechrau cyflwyno’n cynigion ar gyfer lleihau gwariant a darparu effeithlonrwydd trefniadol gwell. Mae'r cynigion hyn yn caniatáu i ni ddarparu gwasanaeth rheoleiddio o safon uchel i'r sector, a chyflawni ein dibenion strategol o fewn y cyfyngiadau ariannol a bennir gan y llywodraeth.

[1] http://www.ofcom.org.uk/files/2011/03/Programme-of-Work-2011-12.pdf

1.8 Mae Ofcom mewn sefyllfa dda i gyflawni'r arbedion angenrheidiol, er bod hynny o sylfaen nad yw'n rhoi cyfleoedd hawdd i leihau ein gwariant. Felly byddwn yn rhoi'r gorau i rai gweithgareddau ac yn cyflawni ein hamcanion drwy ddefnyddio dulliau gweithredu gwahanol sy'n cynnig enillion effeithlonrwydd o sylwedd.

1.9 Mae’r rhain yn cynnwys ein cynllun i wneud newidiadau sylweddol i’n strwythur llywodraethu ynghyd â'n cyrff cynghori ategol a fydd yn fodd i ni wneud arbedion a mireinio ein prosesau penderfynu. Fodd bynnag, bydd rhai o'r mesurau hyn yn dibynnu ar newidiadau deddfwriaethol yn y Mesur Cyrff Cyhoeddus.

1.10 Rydym yn ffyddiog y bydd y newidiadau hyn yn gallu sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion ariannol heb danseilio ein blaenoriaethau a’n dibenion strategol. Yn anochel, bydd yn rhaid gwneud dewisiadau anos o ran dyrannu adnoddau nag a welwyd o'r blaen yn hanes Ofcom wrth wneud y dewisiadau hyn. Cawn ein tywys gan ein dibenion strategol a'n dyletswydd graidd i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

## Dyletswyddau newydd neu ddiwygiedig

1.11 Ceir diwygiadau i ddeddfwriaeth y DU, sydd wedi cael eu rhoi ar waith neu eu cynnig gan y llywodraeth, a fydd yn newid ein dyletswyddau. Bydd rhai o'r rhain yn ein galluogi i gwtogi ein costau a bydd eraill yn golygu y bydd yn rhaid i ni ysgwyddo cyfrifoldebau newydd. Maent yn cynnwys:

- Gweithredu'r darpariaethau yn Neddf Economi Ddigidol 2010 sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â thorri hawlfraint ar-lein.
- Y Mesur Diwygio Cyrff Cyhoeddus. Yn y mesur mae'r llywodraeth wedi cynnig lleihau dyletswyddau Ofcom mewn rhai meysydd, er enghraifft, pa mor aml y cynhelir adolygiadau perchnogaeth cyfryngau ac adolygiadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- Trosglwyddo’r gwaith o reoleiddio gwasanaethau post i Ofcom gan Postcomm, a gynigir yn y Mesur Gwasanaethau Post.

1.12 Ceir gofynion hefyd i Ofcom gydymffurfio â darpariaethau penodol y Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd diwygiedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adolygu ein Hamodau Cyffredinol ac Amodau Gwasanaethau Cyffredinol.
- Newidiadau i'r prosesau datrys anghydfodau a gorfodi.
- Diwygiadau i'n prosesau adolygu'r farchnad, er enghraifft y gofyniad i gynnal adolygiadau o'r farchnad mewn rhai marchnadoedd bob tair blynedd.

1.13 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd ar ei Raglen Polisi Sbectrwm Radio, lle byddwn yn cefnogi cynigion sy’n cyd-fynd ag amserlen y DU ar gyfer newid i'r digidol a chlirio'r sbectrwm.

## Ein blaenoriaethau ar gyfer 2011/2012

1.14 Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn seiliedig ar ein dibenion strategol, yng nghyd-destun ein rhaglen o ostyngiadau ac arbedion effeithlonrwydd yn y gyllideb, ac maent yn ystyried ein ymgynghoriadau a’n digwyddiadau ar gyfer

rhanddeiliaid. Nodwyd mai ein prif ffocws fydd y materion blaenoriaeth rydym wedi eu pennu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac ar gyfer pob blaenoriaeth, rydym wedi nodi'r canlyniad yr hoffem ei gyflawni.

## Blaenoriaethau Cynllun Blynyddol 2011/12

| Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy | Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon | Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr | Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau | Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd a'i weithredu |
|---|---|---|---|---|
| • Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth gyflenwi gwasanaethau teledu drwy dalu<br>• Hybu cystadleuaeth a buddsoddiad i gyflenwi band eang cyflym iawn | • Clirio sbectrwm yn amserol er mwyn gallu dyfarnu sbectrwm newydd<br>• Cynnal arwerthiant o fandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz<br>• Cyflenwi gwarant sbectrwm y llywodraeth ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain<br>• Datblygu rhaglen gwaith polisi sbectrwm ar gyfer y dyfodol, gan ystyried datblygiadau yn y farchnad a'r galw am sbectrwm i'r dyfodol | • Sicrhau bod Darparwyr Cyfathrebiadau yn darparu gwybodaeth glir er mwyn i ddefnyddwyr band eang allu gwneud dewisiadau gwybodus<br>• Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn gwella pa mor rhwydd yw newid rhwng Darparwyr Cyfathrebiadau i ddefnyddwyr | • Gweithredu gweithdrefnau safonau darlledu wedi'u symleiddio<br>• Ystyried dulliau rheoleiddio newydd ar gyfer rheoleiddio cynnwys | • Paratoi ar gyfer dyletswyddau rheoleiddio mewn perthynas â'r Post, a'u cyflawni<br>• Gweithredu darpariaethau Torri Hawlfraint Ar-lein Deddf Economi Ddigidol 2010<br>• Paratoi adroddiad statudol i'r Llywodraeth ar drefniadau trwyddedu ar gyfer sianeli 3 a 5 ar ôl 2014 |

Diwallu'r sialens gwariant cyhoeddus drwy gyflwyno arbedion effiethlonrwydd ar draws y sefydliad

1.15 Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau pwysig i ddefnyddwyr ac i'r rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â nifer o feysydd gwaith mawr eraill sy'n rhan bwysig o'n rhaglen waith yn 2011/12.

1.16 Byddwn yn dal yn ymateb i ddatblygiadau newydd megis methiannau a fydd yn codi yn y farchnad neu faterion newydd i ddefnyddwyr ar draws y DU, yn ogystal â cheisiadau gan y llywodraeth am arbenigedd technegol Ofcom.

## Adran 2

# Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian

## Mae Ofcom, yn yr un modd â phob corff cyhoeddus, yn cyfrannu at ddiwallu'r sialens gwariant cyhoeddus

2.1 Yn wyneb y diffyg mewn arian cyhoeddus roedd y llywodraeth wedi datgan ei chynlluniau yn yr Adolygiad o Wariant ym mis Hydref 2010. Rhaid i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gyflawni arbedion sylweddol.

2.2 Rydym yn ymateb i'r sialens ac wedi adolygu sut rydym yn rheoleiddio'n effeithiol ac mewn ffordd wedi'i thargedu, ar yr un pryd â sicrhau gwerth am arian. Rydym wedi ystyried y ffordd orau o gyflawni ein nodau o fewn y cyfyngiadau ariannol sydd wedi'u pennu gan y llywodraeth.

2.3 Yn ogystal â'r cyd-destun economaidd, rydym hefyd yn ymateb i newidiadau yn neddfwriaeth y DU a deddfwriaeth Ewropeaidd. Rydym wedi ysgwyddo dyletswyddau mewn perthynas â thorri hawlfraint ar-lein ac (yn amodol ar ddeddfwriaeth) byddwn yn ysgwyddo cyfrifoldebau dros reoleiddio'r sector gwasanaethau post. Efallai y bydd ein dyletswyddau yn newid mewn meysydd eraill hefyd o ganlyniad i'r Mesur Cyrff Cyhoeddus. Bydd y Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd hefyd yn gwneud nifer o newidiadau sylweddol ar ôl iddo gael ei drosi ym mis Mai 2011.

## Rydym yn lleihau ein gwariant yn sylweddol

2.4 Mae Ofcom eisoes yn cyflawni ei ddyletswyddau gydag adnoddau sydd 27% yn is, mewn termau real, ar sail tebyg-am-debyg, na'i ragflaenwyr. Ein targed yw lleihau rhagor ar ein gwariant dros y pedair blynedd nesaf a bydd y rhan fwyaf o'r arbedion yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn gyntaf. Erbyn 2014/15 bydd hyn yn cyflawni arbediad termau real gwerth 28.2% ar gap cyllido presennol Ofcom sef £143m a osodwyd gan y Trysorlys.

2.5 Er mwyn diwallu'r sialens honno gwnaethom baratoi cynllun manwl i leihau gwariant ar yr un pryd â chyflawni ffocws strategol gwell ac effeithiolrwydd sefydliadol.

2.6 Daw rhai o'n harbedion o fentrau effeithlonrwydd a oedd eisoes ar waith cyn ein hadolygiad manwl o wariant. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhewi cyflogau ar draws y sefydliad, am yr ail flwyddyn o'r bron.
- Rhoi'r gorau i groniadau yn y dyfodol i'r ddau hen gynllun buddion wedi'u diffinio a etifeddodd Ofcom.
- Ail-dendro rheoli cyfleusterau a ddarperir ar gontractau allanol.
- Penodi darparwr gwasanaethau a reolir ar gyfer staff dros dro a staff asiantaeth.
- Cwblhau trosglwyddo gwasanaethau TGCh a roddir ar gontract allanol i bartner a benodir o'r newydd ar ôl proses caffael OJEU.

- Rhoi cytundebau fframwaith ar waith i symleiddio'r broses caffael OJEU, ar yr un pryd â chydymffurfio'n gaeth â rheoliadau caffael.

2.7 Rydym hefyd yn rhoi nifer o fentrau newydd ar waith i leihau ein gwariant yn 2011/12. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyflwyno strwythur llywodraethu symlach a fydd yn lleihau nifer ein paneli a'n pwyllgorau ac yn golygu bod modd iddynt rannu aelodau (mae'r newidiadau hyn yn dibynnu ar y Mesur Cyrff Cyhoeddus).
- Yn dilyn cytundeb y llywodraeth, rhoi'r gorau i gymryd rhan mewn gweithgareddau penodol megis cyfranogiad digidol.
- Adolygu a blaenoriaethu ein gweithgarwch ymchwil marchnad.
- Ail-ffocysu ein hastudiaethau technegol.
- Adolygu'r ffordd rydym yn rhedeg prosiectau i wella effeithlonrwydd ymhellach.
- Rhesymoli a symleiddio gweithgareddau rhaglennol.
- Lleihau rhagor ar ein costau gweinyddu.
- Adolygu prif gyflenwyr Ofcom.
- Rhesymoli ein stadau gweinydd TGCh i leihau ein costau a'n hôl troed carbon.

2.8 Rydym wedi lleihau nifer ein staff. Mae oddeutu 170 o rolau wedi cael eu dileu neu ar fin cael eu dileu, a bydd y rhan fwyaf o'r rolau hynny wedi cael eu dileu cyn 31 Mawrth 2011. Bydd ein strwythur sefydliadol newydd ar waith ar gyfer 2011/12.

2.9 Rydym yn cynnig newidiadau i'n strwythur llywodraethu. Yn amodol ar y Mesur Cyrff Cyhoeddus, mae'n debyg y bydd newidiadau i amryfal Fyrddau, Paneli a Phwyllgorau Ofcom. Bydd y Pwyllgor Cynghori ar gyfer Defnyddwyr Hŷn ac Anabl yn dod i ben fel corff ar wahân ac rydym hefyd yn cynnig diddymu'r Pwyllgor Cynghori ar gyfer Lloegr. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i gynrychioli dinasyddion Lloegr a defnyddwyr hŷn ac anabl ym Mhwyllgor y Gwledydd. Byddwn yn ystyried manylion newidiadau eraill yn dilyn gweithredu'r Mesur Cyrff Cyhoeddus a fydd yn rhoi'r disgresiwn gofynnol inni am yr agweddau hyn o'n strwythur llywodraethu.

2.10 O ganlyniad i'r cynigion hyn, bydd y Pwyllgorau Cynghori ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban hefyd yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros gynrychioli'r holl ddefnyddwyr, gan gynnwys pobl hŷn a phobl anabl yn benodol. Bydd hyn yn golygu bod modd i ni ddeall y materion penodol sy'n achosi pryder yn y gwledydd yn ogystal â rhoi fforwm er mwyn darparu cyngor ar faterion sy'n benodol i ddefnyddwyr hŷn neu anabl.

2.11 Bydd y newidiadau hyn yn ein galluogi i gyflawni rhagor o arbedion yn ogystal â symleiddio ein proses gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, byddant yn dibynnu ar newid deddfwriaethol a gyflawnir wrth i'r Mesur Cyrff Cyhoeddus ddod i rym. Yn ystod 2011/12 un dasg fawr i Ofcom fydd rheoli'r newid mewn strwythurau llywodraethu er mwyn i ni allu adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi cael ei wneud gan ein pwyllgorau ymgynghorol hyd yn hyn.

2.12 Er nad ydynt heb risg, rydym yn credu y bydd y newidiadau hyn yn ein strwythur a'r dull gweithredu yn ein galluogi i gyflawni canlyniadau rheoleiddio o ansawdd uchel sy'n diwallu ein dibenion strategol a blaenoriaethau'r cynllun blynyddol o fewn ein cyllideb newydd.

## Rydym hefyd yn ysgwyddo dyletswyddau newydd ac yn gweithredu newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli

2.13 Rydym yn gweithredu darpariaethau Deddf Economi Ddigidol 2010, sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â thorri hawlfraint ar-lein. Rydym hefyd yn paratoi ar gyfer newidiadau eraill i'n cyfrifoldebau o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd yn y flwyddyn nesaf:

- Dan y Mesur Cyrff Cyhoeddus, mae'r llywodraeth wedi cynnig diwygio neu ddileu dyletswyddau Ofcom mewn meysydd megis pa mor aml cynhelir adolygiadau perchnogaeth cyfryngau a'r adolygiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Fel y nodwyd yn gynharach, gall y Mesur Cyrff Cyhoeddus hefyd ein galluogi i symleiddio ein trefn lywodraethu, gan ganiatáu i ni symleiddio ein strwythur gydag arbedion cyfatebol. Os daw'r Mesur yn gyfraith, caiff y newidiadau hyn eu gweithredu drwy ddeddfwriaeth eilaidd, er nid yw'n glir a fyddant yn dod i rym yn ystod 2011/12 ai peidio.

- Yn y Mesur Gwasanaethau Post mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i drosglwyddo rheoleiddio gwasanaethau post o Postcomm i Ofcom. Rydym yn gweithio i sicrhau y caiff integreiddio â Postcomm ei reoli'n effeithiol, ar yr un pryd â darparu sicrwydd rheoleiddio ar gyfer defnyddwyr a'r diwydiant.

2.14 Mae'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau[2] wedi ymgynghori ar drosi'r Fframwaith a byddwn yn gweithio â hi i roi'r newidiadau a fydd yn deillio o hynny ar waith. Yn benodol, rhaid i Ofcom ddiwygio nifer o Amodau Gwasanaeth Cyffredinol a Chyffredin erbyn mis Mai 2011. Pan fydd y Fframwaith diwygiedig yn cynnwys pwerau caniataol newydd, byddwn yn adolygu'r angen i roi pwerau o'r fath ar waith.

2.15 Yn dilyn ein proses i adolygu gwariant, ar gyfer datblygu'r mentrau y mae eu manylion uchod ac ar gyfer y gofynion ychwanegol sydd ar Ofcom yn sgil y dyletswyddau newydd, rydym wedi gosod cyllideb o £115.8m ar gyfer 2011/12. Mae'r gyllideb hon £26.7m yn is mewn termau ariannol a 22.5% yn is mewn termau real na chyllideb 2010/11 sef £142.5m. O ganlyniad, byddwn yn cyflawni'r rhan fwyaf o amcanion ein hadolygiad o wariant yn 2011/12.

[2] Ym mis Ionawr 2011 cyhoeddodd y llywodraeth y byddai'r cyfrifoldeb dros faterion sy'n ymwneud â chystadleuaeth a pholisi yn y sectorau cyfryngau, darlledu, digidol a thelegyfathrebiadau yn symud o'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau i'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Mae hyn yn cynnwys y cyfrifoldeb dros weithredu Fframwaith yr UE.

Adran 3

# Blaenoriaethau ar gyfer 2011/12

## Mae ein blaenoriaethau'n deillio o'n dibenion strategol ac yn adlewyrchu'r amgylchedd economaidd a deddfwriaethol a defnyddwyr

3.1 Er mwyn ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad, cyfyngiadau economaidd a newidiadau i ddeddfwriaeth, mae ein blaenoriaethau'n cydbwyso gwaith newydd ag ymrwymiadau parhaus pwysig. Maent wedi cael eu halinio â'n pum diben strategol:

- Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy.
- Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon.
- Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr.
- Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau.
- Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd.

## Diben Strategol 1: Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy

3.2 Rydym yn credu bod angen cael fframwaith rheoleiddio *ex ante* parhaus i ymateb i gyflymder a deinameg ein sectorau a reoleiddir. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2011/12 yn ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad a'u bwriad yw cyflawni manteision sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr.

### Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth gyflenwi gwasanaethau teledu drwy dalu

3.3 Ar ôl tri ymgynghoriad ynghylch y farchnad teledu drwy dalu, roeddem wedi cyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniad ym mis Mawrth 2010, y dylid cynnig Sky Sports 1 a 2 (manylder safonol a manylder uwch) i adwerthwyr ar lwyfannau ar wahân i Sky, am brisiau a bennir gan Ofcom ar gyfer y gwasanaeth manylder safonol.

3.4 Byddwn yn parhau i fonitro faint o ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau newydd a ddeilliodd o'r penderfyniad hwn, ac yn ymchwilio i unrhyw gwynion ynghylch ei weithredu. Yn y cyfamser, byddwn yn amddiffyn ein penderfyniad yn erbyn apeliadau a gyflwynwyd yn ei erbyn.

3.5 Rydym hefyd wedi cyfeirio ymchwiliad marchnad at y Comisiwn Cystadleuaeth dan Ddeddf Menter 2002 ynghylch y sector tanysgrifiadau ffilmiau, yn enwedig tanysgrifiad gwasanaethau fideo ar alwad. Mae'r Comisiwn Cystadleuaeth nawr yn cynnal yr ymchwiliad hwn, a byddwn yn cyfrannu yn ôl y galw.

### Hybu cystadleuaeth a buddsoddiad i gyflenwi band eang cyflym iawn

3.6 Roedd Ofcom wedi cyhoeddi Datganiad ym mis Hydref 2010 yn rhoi casgliadau'r adolygiad o'r farchnad *Mynediad Lleol Cyfanwerthu*. Roedd yr adolygiad hwn yn mynnu bod BT yn cynnig rhith fynediad lleol heb ei fwndelu (VULA) i'w seilwaith ffibr

cenhedlaeth nesaf ac yn agor mynediad i bibelli a pholion yn ei rwydwaith mynediad lleol. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod yr atebion hyn yn effeithiol.

3.7 Bydd hyn yn golygu gweithio'n agos gyda BT, Swyddfa'r Dyfarnwr Telegyfathrebiadau (OTA) a rhanddeiliaid yn y diwydiant, i sicrhau bod cynnyrch cyfanwerthu BT yn cael eu pennu'n briodol ac i ddatrys unrhyw faterion sy'n ymwneud â dyluniad y cynnyrch, y pris a'r cyflenwi. Mae'r rhain yn rhwymedigaethau newydd a fydd â swyddogaeth bwysig o ran hwyluso cystadleuaeth a buddsoddiad mewn gwasanaethau band eang cyflym iawn.

3.8 Dros 2011/12 rydym hefyd yn disgwyl cynhyrchu rhagor o arweiniad ar gyfer y diwydiant ynghylch yr amgylchedd rheoleiddio ar gyfer buddsoddi yn y seilwaith mynediad cenhedlaeth nesaf. Ar ben hynny byddwn yn ystyried sut gellir gweithredu'r darpariaethau newydd ar rannu seilwaith yn y Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd, a darparu cefnogaeth yn ôl y gofyn ar gyfer mentrau band eang y llywodraeth, gan gynnwys drwy Broadband Delivery UK.

## Diben Strategol 2: Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon

3.9 Mae Ofcom yn gyfrifol am sicrhau bod y sbectrwm electromagnetig yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau. Ac ystyried y gwerth posibl i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr gwasanaethau sydd wedi'u galluogi gan adnoddau sbectrwm, mae rheoli sbectrwm yn gryn gyfrifoldeb. Mae asesu sut caiff sbectrwm ei ddefnyddio ac, os yw'n briodol, cymryd camau i alluogi newid ei ddefnydd, yn bwysig i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr.

### Paratoi ar gyfer arwerthiannau bandiau sbectrwm 600 MHz, 800 MHz a 2.6 GHz

3.10 Mae newid gwasanaethau teledu i'r digidol yn rhoi'r cyfle i ryddhau llawer o sbectrwm dan 1 GHz (y difidend digidol) mewn bandiau amledd sy'n arbennig o addas ar gyfer rhaglenni band eang di-wifr a darlledu. Y bandiau sbectrwm allweddol rydym yn gobeithio eu gwerthu yw'r bandiau 800 MHz a 2.6 GHz, a'r band 600 MHz wedyn yn 2012/13.

3.11 Ein nod yw dechrau'r arwerthiant ar gyfer dyfarnu'r trwyddedau i ddefnyddio'r bandiau 800 MHz a 2.6 GHz erbyn diwedd 2011/12 neu ddechrau 2012/13. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- ymgynghori ynghylch ein hasesiad o gystadleuaeth yn y dyfodol yn y marchnadoedd symudol a'n cynigion a fydd yn deillio o hynny ar gyfer dylunio'r arwerthiant ar y cyd;
- cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol ar y materion hyn;
- ymgynghori ynghylch rheoliadau arwerthiant (is-ddeddfwriaeth) a'u llunio, a chyhoeddi Memorandwm Gwybodaeth, a
- llunio fersiwn terfynol meddalwedd i gynnal yr arwerthiant a hyfforddi'r rheini a allai gymryd rhan ynghylch sut mae ei ddefnyddio.

3.12 Er ei bod yn bosibl y bydd yr arwerthiannau ar gyfer y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol 2011/12, rydym yn debyg o gyhoeddi'r trwyddedau perthnasol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol 2012/13. Rydym yn disgwyl y caiff yr arwerthiant 600 Mhz ei gynnal yn 2012 ar ôl yr arwerthiant 800 Mhz/2.6 GHz ar y cyd.

## Clirio sbectrwm yn amserol

3.13 Er mwyn gallu dal y dyfarniadau ar gyfer sbectrwm yn y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz, rydym yn gwneud llawer o waith i glirio'r sbectrwm. Rydym yn symud gwasanaethau sy'n defnyddio'r band 800 MHz ar hyn o bryd - teledu daearol digidol, a gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig - i sbectrwm arall.

3.14 Rydym hefyd yn asesu'r effaith y gallai lansio band eang symudol yn y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz ei chael ar wasanaethau cyfagos, gan gynnwys gweithredwyr aml-blecs teledu (yn agos at 800 MHz) a radar yn y band 2.7 GHz (a elwir hefyd yn fand S) ac, os oes angen ac os yw'n briodol, cymryd camau i liniaru'r effaith honno. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori ar drefniadau i amddiffyn gwasanaethau teledu digidol sydd eisoes yn bodoli rhag ymyrraeth gan fand eang symudol.

3.15 Byddwn yn cwblhau ein hasesiad o effaith gwasanaethau symudol ar ddefnyddwyr mewn bandiau cyfagos mewn da bryd ar gyfer y Memorandwm Gwybodaeth y cyfeirir ato uchod.

3.16 Yn 2011/12, byddwn yn parhau â'n gwaith i symud defnyddwyr cyfredol o'r band 800 MHz:

- O fis Mawrth 2011 ymlaen, byddwn yn dechrau gwneud taliadau dan y cynllun cyllido i helpu defnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) i symud allan o sianel 69, ar frig y band 800 MHz. Bydd y cynllun yn rhedeg tan ddiwedd 2012/13.

- Drwy gydol 2011/12 byddwn yn parhau i weithio gyda gweithredwyr aml-blecs, Digital UK ac Arqiva i glirio Teledu Daearol Digidol o sianeli 61 a 62 ar waelod y band 800 MHz, gan asesu rhaglenni a gwneud taliadau sy'n berthnasol i'r costau a godir yn rhesymol wrth gyflawni'r gwaith hwn.

3.17 Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'r Awdurdod Hedfan Sifil, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r diwydiant i ddiffinio'r rhaglen angenrheidiol o uwchraddio y mae ei hangen i unioni radar band S i allyriadau gan ddefnyddwyr sbectrwm 2.6 GHz a 3.4 GHz.

## Cyflawni gwarant y llywodraeth o sbectrwm di-wifr ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012 Llundain

3.18 Mae Ofcom yn gyfrifol am drefnu cynllun sbectrwm llawn ar gyfer Gemau 2012 Llundain; trwyddedu defnyddwyr di-wifr; a rheoli unrhyw ymyrraeth. Ein cyfraniad at lwyddiant y digwyddiad fydd sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, gan amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr presennol.

3.19 Yn ystod 2011/12 byddwn yn:

- Cyhoeddi fersiwn terfynol o'r cynllun sbectrwm ar gyfer y Gemau.

- Recriwtio a hyfforddi'r arbenigwyr sbectrwm ychwanegol y bydd eu hangen arnom yn ystod y Gemau.

- Aseinio sbectrwm yn dechnegol ar gyfer defnyddwyr y Gemau a chydlynu hyn ag aseinio ar gyfer defnyddwyr nad ydynt yn perthyn i'r Gemau.

- Gweithredu prosesau trwyddedu sy'n diwallu anghenion trefnwyr y Gemau a'r rheini sy'n cymryd rhan yn y Gemau, a chyhoeddi'r rhan fwyaf o'r trwyddedau y mae eu hangen ar ddefnyddwyr y Gemau.

- Monitro'r defnydd a wneir o sbectrwm mewn lleoliadau allweddol i wneud yn siŵr nad oes ymyrraeth niweidiol ar amleddau. Byddwn hefyd yn profi'r offer sy'n canfod cyfeiriad a ddefnyddir i ddod o hyd i union leoliad unrhyw ymyrraeth niweidiol i ddefnyddwyr y Gemau.

- Dylunio a phrofi proses ar gyfer rhag-gomisiynu, profi a thagio offer di-wifr i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag amodau defnyddio yn lleoliadau'r Gemau.

- Gweithredu'r dolenni angenrheidiol rhwng Ofcom ac asiantaethau'r llywodraeth i sicrhau bod materion sbectrwm yn cael eu hadrodd yn amserol a bod unrhyw broblemau yn cael eu datrys.

### Datblygu rhaglen gwaith polisi sbectrwm tymor canolig, gan ystyried datblygiadau yn y farchnad

3.20 Yn *Adolygiad o Fframwaith Sbectrwm* diwethaf Ofcom roeddem wedi disgrifio ein gweledigaeth sbectrwm fel:

- Dylai sbectrwm fod yn rhydd rhag cyfyngiadau o ran defnyddio a thechnoleg cymaint ag y bo modd. Dim ond pan fydd cyfiawnhad dros hynny y dylid defnyddio cyfyngiadau polisi.

- Dylai fod yn syml ac yn dryloyw i'r rheini sy'n dal trwyddedau newid perchnogaeth a defnydd sbectrwm.

- Dylai hawliau defnyddwyr sbectrwm gael eu diffinio'n glir a dylai defnyddwyr deimlo'n gyfforddus na chaiff yr hawliau hyn eu newid heb reswm da.

3.21 Bydd Ofcom yn parhau i gael ei arwain gan yr egwyddorion hyn, gan ystyried ein profiadau ers cyhoeddi'r Adolygiad a'r *Adolygiad o'r Fframwaith Sbectrwm: Cynllun Gweithredu* yn 2005. Byddwn hefyd yn datblygu ein dealltwriaeth o'r galw tebygol am sbectrwm y tu hwnt i'r rhyddhau sydd ar y gweill ar hyn o bryd, gan edrych ar ddatblygiadau yn y tymor hwy a fydd yn effeithio ar ddefnyddio sbectrwm.

## Diben Strategol 3: Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr

3.22 Mae marchnadoedd cyfathrebiadau'n datblygu'n gyflym, a rhaid cael rheoliadau sy'n benodol i'r sector o hyd er mwyn mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad ar yr ochr galw sy'n wynebu defnyddwyr.

### Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn gwella hwylustod newid rhwng darparwyr cyfathrebiadau

3.23 Un o flaenoriaethau Ofcom yw parhau i gymryd camau breision ymlaen o ran sicrhau effeithiolrwydd gweithdrefnau newid. Mae Ofcom yn cynnal adolygiad o brosesau newid ar draws telegyfathrebiadau sefydlog a symudol, band eang a theledu drwy dalu.

3.24 Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni dau ganlyniad allweddol:

- Profiad hawdd a hwylus i'r defnyddiwr newid, nawr ac yn y dyfodol. Mae arnom eisiau sicrhau nad oes dim rhwystrau proses diangen wrth newid gwasanaethau sengl a bwndeli.

- Sicrhau na fydd prosesau newid yn rhwystro darparwyr sy'n cystadlu i sicrhau manteision i bob defnyddiwr, o ran prisiau is, mwy o ddewis ac arloesedd a gwerth am arian.

3.25 Ein barn ni, yr oeddem wedi ymgynghori yn ei chylch ym mis Medi 2010, yw yn y sectorau sefydlog a band eang yw y bydd prosesau newid wedi'u harwain gan y cwmni sy'n ennill yn well na phrosesau wedi'u harwain gan y cwmni sy'n colli'r cwsmer a newid wedi'i gydlynu gan y defnyddiwr. Rydym yn credu bod prosesau wedi'u harwain gan y cwmni sy'n ennill fel rheol yn gwneud yn well na phrosesau a arweinir gan y cwmni sy'n colli o ran canlyniadau i ddefnyddwyr ac o ran cystadleuaeth. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth a dadansoddiad, sy'n awgrymu bod prosesau wedi'u harwain gan y cwmni sy'n ennill y cwsmer yn haws i ddefnyddwyr eu defnyddio, a'u bod yn rhoi prisiau is yn ogystal â mwy o arloesi a dewis.

3.26 Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant drwy ein Gweithgor Newid i ystyried sut mae hyn yn berthnasol i brosesau newid presennol mewn gwasanaethau band eang a llais sefydlog dros y rhwydwaith Openreach. Rydym yn datblygu dewisiadau ac amcangyfrifon costau ar gyfer prosesau wedi'u harwain gan y cwmni sy'n ennill y cwsmer a phrosesau wedi'u harwain gan y cwmni sy'n colli'r cwsmer er mwyn cyfrannu at y ddogfen ymgynghori nesaf.

3.27 Rydym yn bwriadu cyhoeddi ail ymgynghoriad yn ystod haf 2011, a fydd, os oes angen, yn gosod cynigion manwl ar gyfer diwygio'r prosesau newid cyfredol a arweinir gan y cwmni sy'n ennill y cwsmer a'r rheini a arweinir gan y cwmni sy'n colli'r cwsmer mewn gwasanaethau llinell sefydlog a band eang. Yn amodol ar ymgynghoriad, rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad erbyn diwedd 2011/dechrau 2012.

### *Contractau adnewyddadwy awtomatig*

3.28 Rydym yn pryderu am fodolaeth contractau adnewyddadwy awtomatig i ddefnyddwyr preswyl a busnesau bach. Yn benodol, mae gennym bryderon ynghylch effaith bosibl contractau adnewyddadwy awtomatig ar y broses gystadleuol a'r risg y bydd y mathau hyn o gontractau yn dod yn fwy cyffredin. Mae ein tystiolaeth hyd yn hyn yn dangos bod contractau adnewyddadwy awtomatig yn gallu niweidio'r broses gystadleuol ac felly defnyddwyr. Rydym yn ystyried sut mae amddiffyn defnyddwyr a marchnadoedd.

3.29 Ym mis Mawrth 2011 roeddem wedi cyhoeddi dogfen a oedd yn gosod dull gweithredu Ofcom mewn perthynas â chontractau adnewyddadwy awtomatig ac yn cynnig addasiadau i Amod 9 i wahardd contractau adnewyddadwy awtomatig. Ein hamcan yw sicrhau nad yw contractau adnewyddadwy awtomatig yn cyfyngu ar gystadleuaeth nac ar newid yn effeithlon.

### *Ffioedd ychwanegol mewn contractau ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu*

3.30 Daeth cam cyntaf gwaith Ofcom i ben dan y Rhaglen Gorfodi Ffioedd Ychwanegol yn y sector llais sefydlog ym mis Mehefin 2010, ar ôl cyhoeddi arweiniad sy'n benodol i'r sector ynghylch defnyddio Rheoliadau Telerau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr 1999. Ar ôl trafodaethau adeiladol gyda rhanddeiliaid, a'n diweddariad i'r

arweiniad ym mis Tachwedd 2010, rydym yn awr yn parhau â gwaith yn y sectorau llais sefydlog a llais a band eang. Rydym wedi ymestyn y gwaith hwn i 2011/12 er mwyn ystyried sectorau eraill. Fel rhan o'n gwaith gorfodi, gallwn gychwyn ymchwiliadau ar wahân i ddarparwyr a enwir.

### Sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau yn darparu gwybodaeth glir er mwyn i ddefnyddwyr band eang allu gwneud dewisiadau gwybodus

3.31 Mae Ofcom wedi dechrau mentrau sydd wedi'u hanelu at sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth ddibynadwy am gyflymder band eang[3]. Ceir dwy haen i'n gwaith ar gyflymder band eang, a fydd yn parhau gydol 2011/12:

- sicrhau cydymffurfiaeth â'r Côd Ymarfer[4] sydd newydd gael ei ddiwygio (wedi'i brofi drwy siopa dirgel); a
- chyhoeddi dau adroddiad a oedd yn cymharu cyflymder band eang ar gyfer defnyddwyr.

3.32 Ar ôl trosi'r Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd ym mis Mai 2011, bydd Ofcom yn cael pwerau newydd mewn perthynas â rheoli traffig a niwtraliaeth net. Rydym yn credu bod rheoli traffig gyda mwy o dryloywder yn rhan angenrheidiol o farchnad band eang sy'n gweithio'n dda. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant, yn ogystal â pharatoi ein dadansoddiad ein hunain, i bennu'r ffordd orau o ddarparu hyn. Byddwn hefyd yn parhau i ystyried datblygiadau yn y farchnad sy'n deillio o ddefnyddio mwy o reoli traffig a byddwn yn darparu rhagor o arweiniad yn ystod Haf 2011 ynghylch dan pa amgylchiadau y byddem o bosibl yn ystyried cymryd camau pellach. Byddwn hefyd yn chwarae rhan weithredol yn rhaglen waith BEREC ar niwtraliaeth net a rheoli traffig.

## Diben Strategol 4: Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau

3.33 Wrth i'r dirwedd cyfryngau barhau i esblygu, mae darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau yn dal yn rhan hanfodol o'n swyddogaeth. Rydym yn ystyried y fframwaith cyfredol ar gyfer hyn a gofynion yn y dyfodol ar gyfer rheoleiddio cynnwys.

### Gweithredu gweithdrefnau safonau wedi'u symleiddio

3.34 Mae asesu cwynion ynghylch achosion posibl o dorri gofynion trwydded darlledwyr ac ymchwilio i hynny yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn. Mae hyn yn arbennig o wir mewn meysydd megis amddiffyn plant a phobl ifanc dan 18 oed, deunyddiau sy'n peri niwed neu dramgwydd, triniaeth annheg a thorri preifatrwydd.

3.35 Mae'n hanfodol bod ein gweithdrefnau mor effeithiol â phosibl ar gyfer cynnal yr ymchwiliadau hyn a, phan fo'n angenrheidiol, gosod sancsiynau.

---

[3] http://consumers.ofcom.org.uk/2010/11/get-the-most-out-of-your-broadband/

[4] http://stakeholders.ofcom.org.uk/telecoms/codes-of-practice/broadband-speeds-cop-2010/code-of-practice/

3.36 Rydym wedi ymgynghori ynghylch diwygiadau arfaethedig i'n gweithdrefnau ar gyfer:

- ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu;
- ymchwilio i gwynion ynghylch tegwch a phreifatrwydd; ac
- ystyried sancsiynau statudol.

3.37 Bwriad y gweithdrefnau diwygiedig hyn yw gwneud ein hymchwiliadau yn gynt a darparu gwell gwerth i'n rhanddeiliaid. Ar ôl ein hymgynghoriad rydym yn bwriadu gweithredu unrhyw weithdrefnau diwygiedig yn 2011.

### Pan fo'n briodol, ystyried dulliau rheoleiddio newydd i reoleiddio cynnwys

3.38 Byddwn yn parhau i adolygu ein dull rheoleiddio ehangach yng nghyswllt rheoleiddio cynnwys i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben, yn dal i wasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr a'i fod yn glir i randdeiliaid.

3.39 Bydd nifer o sialensiau yn y maes hwn. Bydd newidiadau mewn technoleg, gan gynnwys gwasanaethau IPTV i'r farchnad dorfol yn y DU, yn herio'r strwythurau rheoleiddio presennol, a gafodd eu dylunio gan fwyaf ar gyfer darlledu llinol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cyd-reoleiddwyr, megis ATVOD, i ddatblygu'r strwythurau rheoleiddio hyn. Byddwn yn ystyried sut gallai dulliau rheoleiddio ar gyfer rheoleiddio cynnwys esblygu ymhellach i aros yn addas i'r diben ac yn gymesur.

## Diben Strategol 5: Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd a'i weithredu

3.40 Mae Ofcom wedi arwain neu gyfrannu at nifer o faterion polisi cyhoeddus ar gais y Senedd a'r llywodraeth. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn parhau, pan fydd y Senedd yn dod o hyd i swyddogaeth wedi'i diffinio'n glir ar gyfer Ofcom.

### Paratoi ar gyfer dyletswyddau rheoleiddio mewn perthynas â phost a'u cyflawni

3.41 Ar ôl cyhoeddi'r Mesur Gwasanaethau Post, mae Postcomm ac Ofcom yn gweithio i sicrhau trosglwyddo cyfrifoldeb rheoleiddio gan amharu cyn lleied â phosibl ar y diwydiant, ar ddefnyddwyr ac ar staff. Yn y cyfnod cyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb rheoleiddio, bydd Postcomm ac Ofcom yn cydweithio cymaint ag y bo modd i gynnal sefydlogrwydd rheoleiddio ar gyfer defnyddwyr a gweithredwyr.

3.42 Mae'r Mesur yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. Ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, bydd dyddiad trosglwyddo'r cyfrifoldeb rheoleiddio dros wasanaethau post o Postcomm i Ofcom yn cael ei bennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau.

3.43 Bydd Ofcom yn gyfrifol am weithredu fframwaith rheoleiddio newydd pan ddaw'r Mesur i rym. Er enghraifft, mae'r Mesur yn cynnig disodli'r drefn drwyddedu bresennol ar gyfer darparwyr gwasanaethau post gyda system awdurdodi gyffredinol, yn amodol ar amodau rheoleiddio a bennir gan Ofcom, fel sydd eisoes yn berthnasol i ddarparwyr cyfathrebiadau. Yn y cyfamser, Postcomm yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y sector post a'r pwynt cyswllt ar gyfer rhanddeiliaid y diwydiant post.

### Gweithredu darpariaethau torri hawlfraint ar-lein Deddf Economi Ddigidol 2010

3.44 Bydd Ofcom yn mynd â'i gyfrifoldebau rhagddo ar gyfer gweithredu nifer o ddarpariaethau dan Ddeddf Economi Ddigidol 2010. Dan y Ddeddf Economi Ddigidol, rhaid i weithredu a rheoleiddio'r dyletswyddau hyn gael eu pennu mewn côd. Gan nad yw'r diwydiant wedi llunio cod cymeradwy, mae gan Ofcom ddyletswydd i lunio côd yn unol â gofynion y Ddeddf Economi Ddigidol. Byddwn hefyd yn ymgynghori ynghylch tariff ar gyfer prosesu adroddiadau torri hawlfraint gan ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd ac ynghylch sefydlu corff annibynnol i wrando apeliadau tanysgrifwyr yn erbyn adroddiadau.

3.45 Wrth baratoi ar gyfer dyletswyddau adrodd Ofcom, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch sut gallwn adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â datblygu a hyrwyddo gwasanaethau cyfreithiol, mentrau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o dorri hawlfraint ac ar-lein, a chamau gorfodi a gymerir gan y rheini sy'n berchen ar yr hawlfraint yn erbyn y rheini yr honnir eu bod yn torri'r hawlfraint. Gofynnir i ni adrodd yn chwarterol ar y lefelau o dorri hawlfraint ar-lein a amcangyfrifir, gyda'r adroddiad cyntaf yn berthnasol i'r chwarter llawn cyntaf ar ôl gweithredu. Ar wahân, byddwn yn adrodd yn flynyddol ar ystod ehangach o fesurau, fel sy'n ofynnol dan y Ddeddf.

### Paratoi adroddiad statudol i'r llywodraeth ar drefniadau trwyddedu ar gyfer sianeli 3 a 5 ar ôl 2014

3.46 Dan y Ddeddf Cyfathrebiadau, rhaid i Ofcom baratoi a chyflwyno adroddiad trwyddedu sianel 3/5 i'r Ysgrifennydd Gwladol cyn Mehefin 2012 ar yr hwyraf, cyn i'r trwyddedau cyfredol ddod i ben ym mis Rhagfyr 2014.

3.47 Yn yr adroddiad hwnnw, rhaid i Ofcom roi ei farn ar effaith y trefniadau ar gyfer adnewyddu a'r amodau trwydded perthnasol. Bydd hyn yn ystyried capasiti pob corff sy'n dal trwydded i gyfrannu at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chost sy'n gynaliadwy yn fasnachol.

3.48 Dylai'r adroddiad hefyd gynnwys unrhyw argymhellion sydd gan Ofcom ynghylch a ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn yn atal adnewyddu trwyddedau penodol. Yng ngoleuni safbwyntiau ac unrhyw argymhellion gan Ofcom, gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn yn datgan na ddylid adnewyddu un neu fwy o'r trwyddedau dan sylw.

## Rydym wedi ystyried y canlyniadau ar gyfer y blaenoriaethau hyn

3.49 Mae'n bwysig ein bod yn gallu asesu ein bod wedi llwyddo i gyflawni ein blaenoriaethau. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi dod o hyd i ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau a byddwn yn asesu ein cynnydd tuag at eu cyflawni.

3.50 Rydym wedi rhannu ein canlyniadau yn ganlyniadau *interim* a *therfynol.*

- Mae canlyniadau *interim* yn ddigwyddiadau yn y farchnad sy'n deillio o benderfyniad gan Ofcom; er enghraifft, galluogi trydydd partïon i gael gafael ar rwydwaith neu wasanaeth penodol. Mae'r rhain yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau terfynol.

- Mae canlyniadau *terfynol* yn disgrifio'r manteision ehangach sy'n deillio yn y farchnad i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr; er enghraifft, bod defnyddiwr yn gallu

dewis o amrywiaeth o gynigion adwerthu cystadleuol ac arloesol. Dylai canlyniadau terfynol ddeillio o ganlyniad i benderfyniadau Ofcom, ond bydd datblygiadau yn y farchnad ehangach hefyd yn dylanwadu arnynt.

## Canlyniadau interim ar gyfer blaenoriaethau 2011/12

| Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy | Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon | Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr | Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau | Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd a'i weithredu |
|---|---|---|---|---|
| • Cynnig cyfanwerthu wedi'i wneud i drydydd partion a'r prosesau cysylltiedig yn eu lle ar gyfer teledu drwy dalu<br>• Lansio cynigion teledu drwy dalu manwerthol sy'n cystadlu<br>• Argaeledd sylweddol o fand eang cyflym iawn (oddiwrth ddau ddarparwr neu fwy)<br>• Lansio cynnyrch Pibellau a Pholion BT yn llwyddiannus yn ystod haf 2011<br>• Cynnyrch band eang cyflym iawn cyfanwerthol yn cael eu cymryd gan drydydd partion | • Sbectrwm ar gael ar gyfer gwasanaethau eraill erbyn diwedd 2013 - Sianeli 61, 62 a 69 wedi'u clirio a defnyddwyr wedi cael eu digolledu<br>• Cwblhau arthwerthiant effeithiol ac effeithlon erbyn canol 2012<br>• Trwyddedau newydd ar gyfer defnyddio sbectrwm 800MHz a 2.6GHz wedi'u rhoi erbyn diwedd Gorffennaf 2012 fan bellaf<br>• Lledaenu a lansio'r genhedlaeth nesaf o rwydweithiau bang eang symudol (erbyn 2014)<br>• Mae popeth sy'n angenrheidiol i gyflawni'n cyfrifoldebau ar gyfer y Gemau ar waith ac wedi'u profi | • Mwy o dryloywder mewn hysbysebu ac ymwybyddiaeth defnyddwyr o ansawdd a chyflymder band eang<br>• Mwy o gymhelliant i ddarparwyr band eang wella ansawdd<br>• Diwedd contractau a Adnewyddir yn Awtomatig (yn amodol ar ymgynghori)<br>• Rhagor o ostyngiadau yn y costau terfynu'n gynnar gan ddarparwyr band eang a sefydlog | • Rhoi gweithdrefnau symlach newydd ar waith ar gyfer ymchwiliadau i sicrhau y ceir penderfyniadau cyflymach, mwy ymatebol<br>• Ychwanegu at ein dealltwriaeth ein hunain ac yn ehangach o'r modelau diogelu a sicrwydd sy'n briodol ar gyfer y dyfodol<br>• Gosod sylfaen ymchwil er mwyn pennu model rheoleiddio ar gyfer y dyfodol | • Cyflwyno'r cynllun OCI gan gynnwys tariffau, corff apelio, cod a phroses adrodd<br>• Sefydlu gofynion Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus eglur ar gyfer y cyfnod trwyddedu nesaf ar gyfer C3/ C5<br>• Integreiddio'r gwaith o reoleiddio'r post yn llwyddiannus i waith Ofcom, yn amodol ar ddeddfwriaeth |

## Canlyniadau terfynol ein blaenoriaethau 2011/ 12

| Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy | Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon | Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr | Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau | Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd a'i weithredu |
|---|---|---|---|---|
| • Amrywiaeth o wasanaethau Teledu drwy dalu ar gael yn y farchnad<br>• Arloesedd mewn perthynas â sianeli Teledu drwy Dalu premiwm craidd<br>• Cynyddu'r nifer sy'n defnyddio band eang cyflym iawn a gwella'i argaeledd<br>• Defnyddwyr yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o gynigion band eang cyflym iawn cystadleuol | • Arloesedd mewn gwasanaethau di-wifr<br>• Cystadleuaeth band eang symudol effeithiol, gyda phrisiau wedi eu meincnodi'n rhyngwladol<br>• Gwasanaethau band eang symudol o safon uchel ar gael yn eang i ddefnyddwyr<br>• Cyflenwi gwarant sbectrwm y llywodraeth ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain | • Defnyddwyr yn gwybod yn well am y gwahaniaethau rhwng y cynnyrch sydd ar gael ar y farchnad<br>• Ansawdd y gwasanaeth gan ddarparwyr band eang yn well<br>• Defnyddwyr sy'n newid rhwng darparwyr cyfathrebiadau'n wynebu llai o rwystrau a'r gwaith o newid yn haws<br>• Monitro lefelau newid rhwng darparwyr o fewn y sector gyfathrebiadau | • Lefelau uchel o hyder ym mhenderfyniadau Ofcom a'i allu i reoleiddio safonau darlledu<br>• Gorfodi safonau darlledu yn effeithiol ac effeithlon | • Fframwaith OCI teg a hyfyw i ddefnyddwyr a'r diwydiant<br>• Mesur o safon uchel mewn perthynas â thorri hawlfraint ac adroddiadau ar fentrau gan y diwydiant<br>• Cyfrannu at amcan y Llywodraeth o leihau lefelau torri hawlfraint<br>• Model cynaliadwy ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol<br>• Cyflawni amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddud masnachol yn effeithiol |

2

## Adran 4

# Prif feysydd gwaith eraill ar gyfer 2011/12

## Yn ogystal â'n blaenoriaethau, byddwn yn ymgymryd â gwaith arall

4.1 Mae gennym nifer o feysydd gwaith pwysig ar y gweill ar gyfer 2011/12, sy'n seiliedig ar ein dibenion strategol, sydd yn ychwanegol at ein blaenoriaethau blynyddol. Sef:

## Diben Strategol 1: Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy

### Gweithredu cynigion yng nghyswllt cyfraddau terfynu symudol

4.1 Daeth y rheolau presennol sy'n pennu costau terfynu galwadau cyfanwerthu i ben ar 31 Mawrth 2011. Roeddem wedi cyhoeddi ein casgliadau ynghylch atebion priodol, gan gynnwys rheolaeth ffioedd, ar 15 Mawrth.

### Gweithredu newidiadau i hwyluso cludo rhifau symudol

4.2 Roeddem wedi cyhoeddi datganiad terfynol ar y broses cludo rhifau symudol ym mis Gorffennaf 2010. Roeddem wedi lleihau'r amser a gymerir i gludo rhif i ddarparwr ffôn symudol newydd o ddau ddiwrnod gwaith i un. Roeddem hefyd wedi pennu rheolau a oedd yn mynnu bod darparwyr yn rhoi Côd Awdurdodi Cludo (PAC) i gwsmeriaid sy'n gofyn amdano, naill ai ar unwaith dros y ffôn neu drwy neges destun cyn pen dwy awr. Mae'r newidiadau a gynigir hefyd yn cyd-fynd â'r fframwaith UE diwygiedig sy'n mynnu cludo mewn un diwrnod ar draws yr UE. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r diwydiant a defnyddwyr i sicrhau'r cynllun rheoleiddiol newydd a ddaw i rym ym mis Ebrill 2011 a chodi ymwybyddiaeth ohono.

4.3 Ym mis Chwefror 2011, roeddem wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ar yr holl newidiadau y mae eu hangen er mwyn gweithredu'r Fframwaith UE newydd.[5] Cynigir dau newid ynghylch cludo rhifau symudol: mae'r cyntaf yn mynnu cludo mewn swmp mewn un diwrnod gwaith[6]; ac mae'r ail yn mynnu rhoi trefniadau iawndal ar waith ar gyfer cludo gwallus neu wedi'i ohirio. Daw ein hymgynghoriad i ben ar 7 Ebrill 2011 a byddwn yn llunio fersiynau terfynol y newidiadau erbyn 25 Mai 2011, sef y dyddiad olaf ar gyfer trosi yn gyfraith genedlaethol.[7]

### Sefydlu rheolaeth ffioedd newydd ar gyfer dadfwndelu dolen leol (LLU) a rhentu llinell cyfanwerthu (WLR)

4.4 Daw'r rheolaeth bresennol ar ffioedd ar gyfer dadfwndelu dolen leol (LLU) a rhentu llinell cyfanwerthu (WLR) i ben yn 2011. Mae'r rheolaethau ffioedd yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, a disgwylir y bydd ein cynigion ar gyfer rheolaethau newydd yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2011. Ar ôl ymgynghori, rydym yn disgwyl y daw'r rheolaethau newydd i rym erbyn haf 2011 tan 2014.

---

[5] http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/gc-usc/summary/gc-usc.pdf

[6] Caiff mwy na 25 rhif ffôn symudol eu prosesu dan un Côd Awdurdodi Cludo

[7] http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/gc-usc/summary/gc-usc.pdf

## Rheolaeth ffioedd ar y gwasanaethau mynediad band eang cyfanwerthu (WBA) (Marchnad 1)

4.5 Byddwn yn cwblhau ein gwaith ar y rheolaeth ffioedd arfaethedig ar wasanaethau mynediad band eang cyfanwerthu a gyflenwir gan BT yn ardaloedd cyfnewidfeydd Marchnad 1.

4.6 Mae Marchnad 1 yn cynnwys cyfnewidfeydd sydd â BT yn unig ddarparwr rhwydwaith gwasanaethau mynediad band eang cyfanwerthu yno; mae hyn yn berthnasol i 11.7% o eiddo'r DU. Yn y datganiad o'r adolygiad o'r farchnad mynediad band eang a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 nodir y canfuwyd bod gan BT bŵer sylweddol yn y farchnad hon. Bydd y rheolaeth ffioedd arfaethedig yn diogelu defnyddwyr gwasanaethau band eang drwy sicrhau nad yw'r ffioedd BT am y gwasanaethau cyfanwerthu a brynir gan ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd ym Marchnad 1 yn rhy ddrud.

## Symleiddio rheoleiddio gwasanaethau nad ydynt yn rhai daearyddol

4.7 Mae Ofcom yn pryderu bod y farchnad bresennol ar gyfer ystodau galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol yn siomi defnyddwyr a darparwyr y gwasanaethau. Rydym o'r farn bod achos cryf dros ddiwygio rheoleiddio.

4.8 Yn gynnar yn ystod 2011/12 bydd Ofcom yn cwblhau adolygiad strategol o'r farchnad ac yn dechrau gweithredu canlyniadau polisi'r ymgynghoriad. Bydd hyn yn seiliedig ar y newidiadau disgwyliedig i'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn 2011 o ganlyniad i'r diwygiadau i'r Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd. Bydd y rhain yn egluro pwerau Ofcom i ymyrryd yn y maes hwn er mwyn diogelu defnyddwyr.

## Cynnal adolygiadau o'r farchnad cysylltedd busnes a'r rheolaeth ffioedd llinellau ar les

4.9 Yn ystod 2011/12, bydd Ofcom yn cymryd camau breision ymlaen gyda'r adolygiad nesaf o'r farchnad cysylltedd busnes a'r rheolaeth ffioedd gysylltiedig ar gyfer llinellau ar les. Bydd yr adolygiad yn asesu i ba raddau y mae amodau cystadleuol wedi newid ym marchnadoedd y DU ar gyfer llinellau ar les, ac a ddylid diwygio'r dyletswyddau rheoleiddio a ddefnyddir gyda BT a KCOM yn y marchnadoedd hyn.

4.10 Os bydd yr adolygiad o'r farchnad yn gweld bod angen parhaus am reolaeth ffioedd llinellau ar les, sy'n berthnasol i'r gwasanaethau cyfanwerthu (cylchedau preifat rhannol a gwasanaethau Ether-rwyd) a ddarperir gan BT yn y marchnadoedd y mae ganddo bŵer sylweddol yn y farchnad ynddynt, byddwn yn cynnal adolygiad penodol o'r rheolaeth honno. Rydym yn bwriadu cwblhau'r adolygiad o'r farchnad ac, os oes angen, y rheolaeth ffioedd cyn diwedd mis Medi 2012, pan ddaw'r rheolaeth ffioedd bresennol i ben.

## Pennu rheolaeth pris ar gyfer gwasanaethau ISDN30 BT

4.11 Roedd yr adolygiad o farchnadoedd adwerthu a chyfanwerthu ISDN30 wedi canfod bod gan Openreach bŵer sylweddol yn y farchnad ar gyfer darparu gwasanaethau cyfanwerthu ISDN30 a bod y pris yn uwch na'r lefel gystadleuol. Byddwn yn cyhoeddi ein datganiad yn ystod haf 2011.

4.12 Bydd y prosiect rheolaeth prisiau ISDN30 yn:

- ymchwilio i broffidioldeb Openreach ar gyfer gwasanaethau cyfanwerthu ISDN30;

- asesu a oes risg berthnasol o Openreach yn pennu ac yn cynnal prisiau ar lefel sy'n rhy uchel; a
- phennu ffurf a lefel unrhyw reolaeth prisiau a bennir y mae'n briodol ei gosod ar y gwasanaethau hyn.

### Adolygu'r arweiniad ar ogwydd costau

4.13 Yn dilyn adolygiad o'r farchnad, mewn nifer o achosion mae Ofcom wedi pennu gofyniad gogwydd costau ar weithredwyr sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad. Rydym yn bwriadu adolygu ein harweiniad cyfredol ac rydym yn disgwyl ymgynghori ynghylch canfyddiadau'r adolygiad hwn.

### Ystyried rheoleiddio hysbysebion teledu

4.14 Yn 2011-12 bydd Ofcom yn cynnal rhaglen o waith yn canolbwyntio ar hysbysebion teledu a rheoleiddio hysbysebion teledu. Byddwn yn cynnal adolygiad o weithrediad marchnad hysbysebion teledu'r DU, gan edrych ar y ffordd caiff hysbysebion teledu eu prynu a'u gwerthu.

4.15 Bydd yr adolygiad hefyd yn ceisio asesu a yw'r dulliau presennol yn rhwystro, yn ystumio neu'n cyfyngu ar gystadleuaeth, ac a yw hyn yn cael effaith niweidiol ar ddefnyddwyr. Byddwn hefyd yn cynnal asesiad o'r rhesymwaith gwaelodol sy'n sail i reoleiddio hysbysebion teledu ac yn ystyried y ffordd orau i Ofcom ystyried y dadleuon economaidd a budd cyhoeddus yn y maes hwn.

### Datrys anghydfodau ac ymchwilio i gwynion dan y Ddeddf Cystadleuaeth a gosod cosbau pan fo'n briodol

4.16 Byddwn yn parhau â'n gwaith ar ymchwiliadau ac anghydfodau yng nghyswllt cystadleuaeth, ac yn rhoi sylw i unrhyw faterion newydd a fydd yn codi yn ystod 2011/12. Mae gennym ddyletswydd statudol i gyflawni'r swyddogaeth hon a byddwn yn darparu digon o adnoddau er mwyn sicrhau y caiff ei chyflawni'n amserol.

4.17 Dros y ddwy flynedd diwethaf mae Ofcom wedi gweld cynnydd mewn apeliadau, cyfreitha ac anghydfodau a gyflwynir gan rai rhanddeiliaid, yn enwedig yn y sector telegyfathrebiadau. Gall hyn olygu oedi cyn gweithredu ein penderfyniadau (a'r manteision i ddefnyddwyr bydd hynny'n ei olygu). Mae hefyd yn peri sialens weithredol ac ariannol ychwanegol i ni hefyd o ran amddiffyn ein penderfyniadau mewn proses apeliadau sy'n aml yn hir ac yn fanwl.

4.18 Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ar newidiadau i'r broses datrys anghydfodau sy'n ceisio ei gwneud yn fwy effeithlon ac effeithiol. Caiff y newidiadau hyn eu rhoi ar waith yn gynnar yn ystod 2011.

## Diben Strategol 2: Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon

### Sicrhau bod ystodau rhifau ffôn daearyddol ar gael i ddarparwyr cyfathrebiadau a hybu eu dyrannu yn effeithlon ac yn effeithiol

4.19 Ofcom sy'n gyfrifol am weinyddu'r rhifau ffôn llinell sefydlog y mae eu codau deialu yn dechrau ag 01 a 02 (rhifau daearyddol) ac am sicrhau bod digon o rifau ar gael i

ddarparwyr cyfathrebiadau er mwyn eu galluogi i gynnig dewis o wasanaethau i ddefnyddwyr.

4.20 Mae Ofcom wedi ymgynghori ynghylch y newidiadau arfaethedig i sut byddem yn rheoli rhifau daearyddol yn y dyfodol. Mae'r cynigion wedi cael eu dylunio i gynnal gallu Ofcom i ddiwallu gofynion darparwyr cyfathrebiadau yn y dyfodol ar gyfer rhifau daearyddol ym mhob rhan o'r DU. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid ydym wedi cynnig newid unrhyw rifau ffôn sydd eisoes yn bodoli.

4.21 Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad interim a chynnal ymgynghoriad pellach yn ystod haf 2011 a chyhoeddi datganiad terfynol yn nes ymlaen yn 2011. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan benderfyniad polisi terfynol yn 2012. Mae Ofcom hefyd yn bwriadu helpu'r diwydiant i roi cynlluniau ar waith i greu cyflenwadau newydd o rifau daearyddol lle bydd eu hangen.

### Prynu a gwerthu sbectrwm

4.22 Yn ystod mis Medi 2009 roeddem wedi ymgynghori ynghylch newidiadau i wneud prynu a gwerthu sbectrwm yn symlach ac yn fwy deinamig, gan gynnwys diwygiadau i'r Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd sy'n caniatáu ffordd newydd o brynu a gwerthu o'r enw 'lesio sbectrwm’. Ym mis Ebrill 2010 roeddem wedi cyhoeddi ein bwriad mewn egwyddor i symud ymlaen â'r newidiadau hyn ac rydym yn bwriadu gwneud hynny, o bosibl yn ystod ail hanner 2011.

### Adolygu'r sbectrwm a ddefnyddir gan wasanaethau dolen sefydlog

4.23 Yn dilyn ymgynghoriad Ofcom ynghylch y fframwaith ar gyfer prisio sbectrwm ym mis Mawrth 2010, roeddem wedi cyhoeddi Datganiad ar 17 Rhagfyr lle'r oeddem yn amlinellu ein bod wedi cael llawer o gefnogaeth ar gyfer adolygu'r ffioedd a godir ar gyfer trwyddedau yn y bandiau sbectrwm a ddefnyddir gan ddolenni sefydlog. Rydym yn disgwyl y byddwn yn casglu tystiolaeth i helpu i gyfrannu at yr adolygiad a llunio ei hyd a'i led yn ystod 2011/12.

### Dyfeisiau 'gofod gwyn'

4.24 Gofod gwyn yw'r enw a roddir ar fandiau sbectrwm nad ydynt yn cael eu defnyddio gan ddeilydd y drwydded mewn lleoliad penodol. Yn ddiweddar cwblhaodd Ofcom ei ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer gweithredu fframwaith i alluogi dyfeisiau i gael gafael ar ofod gwyn ar sail caniatâd heb drwydded.

4.25 Yn 2011/12, rydym yn bwriadu parhau â'n gwaith ar alluogi dyfeisiau gofod gwyn:

- Yn ystod ail chwarter 2011, byddwn yn cyhoeddi canlyniadau ein hymgynghoriad ar weithredu dull gweithredu sy'n seiliedig ar ganfod lleoliad o ran mynediad i ofod gwyn;
- Drwy gydol 2011/12 rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid a darpar ddarparwyr gwasanaeth ar fanyleb, gweithredu a phrofi cronfeydd data canfod lleoliad. Byddwn yn gweithio gyda chyrff sydd eisoes â thrwydded i sicrhau nad yw cyflwyno dyfeisiau gofod gwyn yn achosi ymyrraeth niweidiol i'w gwasanaethau.
- Byddwn hefyd yn parhau i gymryd rhan ragweithiol mewn cyrff rheoleiddio Ewropeaidd i ddatblygu dull gweithredu cyffredin er mwyn galluogi mynediad gofod gwyn.

## Cynnig mwy o e-wasanaethau i'n rhanddeiliaid

4.26 Mae Ofcom yn bwriadu gwella mynediad i ddefnyddwyr a'r rheini sydd â thrwyddedau drwy borth gwe gwell. Fel rhan o'n gwelliannau i'n gwefan, byddwn yn lansio menter e-wasanaethau wedi'i hanelu at annog defnyddwyr a'r rheini sy'n dal trwyddedau i weithio at strategaeth 'gwe yn gyntaf' neu hunanwasanaeth. Bydd hyn yn berthnasol i gwynion telegyfathrebiadau, ceisiadau am drwyddedau ac ymholiadau, adnewyddu, taliadau ac ymholiadau cyffredinol.

## Datblygu fframwaith rhyngwladol sefydlog i gefnogi ein hagenda sbectrwm

4.27 Bydd Ofcom yn parhau i gymryd rhan yn y fforymau rhyngwladol ar lefelau dwyochrog, Ewropeaidd a rhyngwladol, i sicrhau bod fframwaith rhyngwladol sefydlog yn sail i'n dyfarniadau sbectrwm ac i gydlynu'r ffordd rydym yn defnyddio sbectrwm. Byddwn yn parhau i fod yn weithredol yn CEPT ac ITU ac yn benodol, byddwn yn cymryd rhan yn y paratoadau Ewropeaidd ar gyfer Cynhadledd nesaf Radio'r Byd.

## Sicrhau cydymffurfiaeth ag amcanion polisi Ewropeaidd

4.28 Mae gan Ofcom bwerau wedi'u dirprwyo dan y Ddeddf Cyfathrebiadau a Chyfarwyddiadau Gweinidogol i gynrychioli'r llywodraeth ar y Pwyllgor Sbectrwm Radio a'r Grŵp Polisi Sbectrwm Radio.

4.29 Rydym hefyd yn cymryd rhan ym mholisi sbectrwm yr UE, gan gynnwys lle nad oes gennym bwerau penodol a ddirprwywyd, ond lle mae ein mewnbwn yn bwysig i sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr y DU. Yn 2011/12 byddwn yn canolbwyntio ar nifer o weithgareddau penodol:

- Y Rhaglen Polisi Sbectrwm Radio (RSPP), o ganlyniad i ddarpariaethau newydd yn y Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd diwygiedig, byddwn yn gosod llwybr ar gyfer rheoli sbectrwm yn yr UE dros y pedair i'r pum mlynedd nesaf. Mae'r ddeddfwriaeth ddrafft hon yn mynd drwy'r broses penderfyniad ar y cyd ac yn debyg o fod yn brif faes ffocws ar gyfer Ofcom drwy gydol 2011.

- Gweithredu'r Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd diwygiedig; bydd Ofcom yn gweithredu arferion rheoli sbectrwm newydd (ee lesio sbectrwm) a bydd yn diwygio rhai sydd eisoes yn bodoli (ee rhaid adolygu pob trwydded cyn pen cyfnod o bum mlynedd er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â darpariaethau newydd ar niwtraliaeth gwasanaeth a thechnoleg).

- Paratoi ar gyfer Cynhadledd Radio'r Byd a bod yn bresennol yn y gynhadledd honno a gynhelir ym mis Ionawr/Chwefror 2012 (WRC-12). Bydd Ofcom yn cymryd rhan weithredol mewn paratoadau ar gyfer WRC-12 ac yn cyfrannu at ddatblygu Sefyllfaoedd Cyffredin Ewropeaidd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu buddiannau'r DU.

## Gorfodi sbectrwm

4.30 Mae gwaith Ofcom ar orfodi sbectrwm yn cynnwys:

- cymryd offer a gedwir heb awdurdod ac erlyn gosodwyr a pherchnogion pan fo hynny'n briodol (gan gynnwys mewn perthynas â darlledu anghyfreithlon);

- mabwysiadu dull gweithredu newydd yng nghyswllt darlledu anghyfreithlon, gweithio gydag asiantaethau eraill, megis awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r heddlu i leihau'r ymyrraeth niweidiol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig;
- gwneud ymdrechion ychwanegol i fynd i'r afael â gwerthu offer anghyfreithlon ar-lein, gan gynnwys targedu, addysgu a hysbysu rhanddeiliaid a chymryd camau yn erbyn diffyg cydymffurfio bwriadol;
- darparu cyngor a chymorth mewn achosion o ymyrraeth, yn enwedig mewn achosion nad ydynt yn cael eu datrys gan y BBC dan ei dyletswyddau yn y Siarter; a
- chynyddu ein ffocws ar achosion o ddefnyddio sbectrwm radio busnes heb drwydded, a chau'r rhwyd ar y rheini sy'n dal trwyddedau ond sy'n methu talu eu ffioedd trwydded mewn da bryd.

## Diben Strategol 3: Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr

### Sicrhau bod digon o wasanaethau'n cael eu darparu i ddefnyddwyr â nam ar eu clyw a/neu anawsterau lleferydd

4.31 Fel rhan o'n dyletswydd i ystyried anghenion pobl anabl a phobl hŷn, byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o wasanaethau cyfnewid, sy'n helpu defnyddwyr sydd â nam ar eu clyw a'u lleferydd i wneud a derbyn galwadau ffôn. Mae'r gwasanaeth cyfnewid testun presennol yn cael ei ddarparu dan y rhwymedigaeth gwasanaethau cyffredinol ar hyn o bryd, ac rydym yn edrych ar bosibilrwydd gwasanaethau cyfnewid gwell neu ychwanegol.

4.32 Byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad yn y gwanwyn. Bydd hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer gwella pan fyddwn yn dod o hyd i fylchau mewn darpariaeth a meysydd i'w gwella.

### Amddiffyniad yn erbyn telerau ac arferion annheg gan ddarparwyr cyfathrebiadau a gorfodaeth yn erbyn hynny

4.33 Bydd Ofcom yn gweithio at sicrhau bod rheoliadau a mecanweithiau priodol i amddiffyn defnyddwyr ar waith, gan gymryd camau gorfodi yn erbyn darparwyr cyfathrebiadau yn ôl yr angen.

4.34 Byddwn yn symud ymlaen i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn yn well rhag posibilrwydd cam-werthu gwasanaethau llais llinell sefydlog, gan gynnwys slamio. Bydd hyn yn cynnwys ein gwaith gyda Swyddfa'r Dyfarnwr Telegyfathrebiadau i fynd i'r afael â phroblemau lle mae defnyddwyr yn newid darparwyr mewn camgymeriad. Byddwn yn parhau â'n gwaith ar delerau annheg sy'n ymwneud â chostau ychwanegol mewn contractau defnyddwyr, gan ganolbwyntio ar gostau terfynu'n gynnar. Byddwn hefyd yn cynyddu ein gwaith gorfodi ar alwadau mud sy'n gallu achosi cryn boen a phryder i ddefnyddwyr. Byddwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio ein polisi newydd, a mwy o bwerau dirwyo, er mwyn atal galwadau mud parhaus.

4.35 Ar ôl cyflwyno rheolau newydd ynghylch delio â chwynion yn ystod mis Ionawr 2011, byddwn yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau hyn i leihau'r pryder a niwed a achosir gan fethiant darparwyr cyfathrebiadau i ddelio â phroblemau defnyddwyr yn foddhaol.

4.36 Byddwn hefyd yn ystyried cwynion gwylwyr i Ofcom sy'n ymwneud â nifer o feysydd megis amddiffyn pobl ifanc dan 18, niwed a thramgwydd, tegwch a phreifatrwydd, ac amhleidioldeb a chywirdeb mewn newyddion. Efallai y bydd materion newydd yn dod i'r fei yn ystod y flwyddyn a byddwn yn ymateb i'r rhain yn effeithiol.

## Cynnal a chyhoeddi ymchwil marchnad a defnyddwyr er mwyn cyfrannu at ein gwaith

4.37 Rydym wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. I wneud hyn, mae'n rhaid i ni ddeall agweddau defnyddwyr a datblygiadau yn y farchnad, a byddwn yn cyflawni hyn drwy gyfrwng rhaglen gynhwysfawr o ymchwil marchnad a drwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad.

## Parhau i hyrwyddo buddsoddiad a fydd yn mynd i'r afael ag 'ardaloedd digyswllt' ffonau symudol

4.38 Mae materion sy'n ymwneud â darpariaeth symudol yn bwysig i ddefnyddwyr a byddant yn dal i godi materion polisi cyhoeddus ehangach oherwydd y ffordd mae cymdeithas yn dibynnu ar ffonau symudol. Mae'r mater hwn wedi cael ei godi gan y Pwyllgorau Ymgynghorol ar gyfer y Gwledydd fel maes pryder penodol i ddefnyddwyr sy'n byw mewn ardaloedd lle nad yw'r boblogaeth mor ddwys. Rydym yn adeiladu ar ein hymchwil ac yn symud at atebion ymarferol sydd o fewn cwmpas ein dyletswyddau a'n pwerau.

4.39 Wrth i ddyfeisiau wella, gan gynnig rhaglenni newydd, bydd disgwyliadau ynghylch argaeledd gwasanaethau symudol yn codi ymhellach fyth. Byddwn yn monitro'r mater hwn ac yn canolbwyntio'n benodol ar faterion darpariaeth symudol yn y meysydd canlynol:

- *Ystyried yr angen i wella gwybodaeth am ddarpariaeth*: Byddwn yn edrych ar sut caiff gwybodaeth am ddarpariaeth ei darparu i ddefnyddwyr, pa mor gywir yw'r wybodaeth honno, sut mae defnyddwyr yn defnyddio'r wybodaeth a'i heffaith arnynt. Ein nod tymor hwy yw archwilio sut gall gwybodaeth well i ddefnyddwyr ei gwneud hi'n haws newid, a all gynyddu'r gystadleuaeth rhwng gweithredwyr i ddarparu mwy o ddarpariaeth.

- *Archwilio'r cwmpas i hwyluso darpariaeth wrth symud:* Rydym yn ceisio helpu i wella darpariaeth i ddefnyddwyr y DU wrth iddynt deithio, mater sy'n effeithio ar ddefnyddwyr busnes yn benodol. Byddwn yn ymestyn ein hymchwil Dyfnaint[8] i fesur cryfder signal symudol ar y prif ffyrdd prifwythiennol yn y DU. Byddwn hefyd yn archwilio, yng nghyd-destun materion diwydiant ehangach, ffyrdd o wella darpariaeth symudol ar y rhwydwaith rheilffyrdd.

---

[8] Rydym yn cynnal astudiaeth beilot i fesur cryfder signal symudol mewn un rhanbarth wledig yn y DU – Dyfnaint - i fesur cryfder signal symudol 2G a 3G gan weithredwyr ar draws sampl o ffyrdd yn y rhanbarth. Dylai hyn ganiatáu i ni gymharu lefelau'r ddarpariaeth go iawn â'r rheini y mae'r gweithredwyr yn eu honni yn ôl cod post.

- *Parhau i ymgysylltu â llywodraeth:* Lle mae datblygiadau yn y farchnad yn llai tebygol o fynd i'r afael ag ardaloedd digyswllt, byddwn yn parhau i gynghori'r llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig i gefnogi eu nodau polisi cyhoeddus. Er enghraifft, cyhoeddir ein hadroddiad seilwaith cyntaf dan y Ddeddf Economi Ddigidol yn ystod haf 2011 a bydd yn cynnwys canfyddiadau lefel uchel ynghylch darpariaeth symudol. Byddwn yn defnyddio'r adroddiad hwn i ddatblygu argymhellion ymarferol lle ceir materion sy'n ymwneud â darpariaeth a allai fod yn fwy perthnasol i'r llywodraeth eu hystyried yn hytrach nag Ofcom.

- *Mynd â rhyddhau sbectrwm rhagddo:* Ar ôl Cyfeiriad y llywodraeth, byddwn yn mynd â rhyddhau sbectrwm addas rhagddo ar gyfer gwasanaethau band eang symudol y genhedlaeth nesaf.

4.40 Ar ben hynny byddwn yn mynd â ffrwd newydd o waith rhagddi er mwyn cael gwell dealltwriaeth o gostau a manteision atebion mwy cynhwysfawr ar gyfer mannau gwan llais, ac asesu'r mecanweithiau gwahanol sydd ar gael er mwyn gweithredu'r rhain. Bydd y dewisiadau y byddwn yn eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys, er enghraifft, amrywiadau i drwyddedau sydd eisoes yn bodoli ac efallai cyfuno hynny â diwygiadau i ffioedd trwyddedau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein *Hymgynghoriad ynghylch asesiad o gystadleuaeth symudol yn y dyfodol a chynigion ar gyfer dyfarnu sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz a materion perthnasol*[9].

4.41 Mae'n debyg y caiff y canlyniadau o waith darpariaeth symudol Ofcom eu gwireddu dros gyfnod hwy na 2011/12, gan y byddant yn dibynnu ar y camau a gymerir gan weithredwyr symudol, ar ôl buddsoddiad masnachol neu fuddsoddiad â chymhelliant cyhoeddus.

## Sicrhau bod cyrff Datrys Anghydfodau Cymeradwy yn delio â chwynion defnyddwyr yn effeithiol

4.42 Mae gan bob defnyddiwr yr hawl i fynd â chwynion nad ydynt wedi cael eu datrys ynghylch eu darparwr at gynllun datrys anghydfod sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Ofcom. Mae Ofcom wrthi'n adolygu perfformiad y ddau gynllun y mae wedi'u cymeradwyo (Otelo a CISAS) i sicrhau bod eu gweithrediadau, eu strwythur a'u rheolau yn diwallu anghenion defnyddwyr.

## Hyrwyddo argaeledd offer hawdd ei ddefnyddio

4.43 Mae gan Ofcom ddyletswydd dan Adran 10 y Ddeddf Cyfathrebiadau i hyrwyddo datblygiad ac argaeledd offer hawdd ei ddefnyddio i ddefnyddwyr. Mae'r Gyfarwyddeb Gwasanaeth Cyffredinol a adolygwyd yn ddiweddar hefyd yn rhoi dyletswydd ar Aelod-wladwriaethau i hybu argaeledd offer terfynell sy'n cynnig y gwasanaethau a'r swyddogaethau angenrheidiol er mwyn gallu mabwysiadu a gweithredu trefniadau penodol ar gyfer defnyddwyr anabl.

4.44 Mae'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau wedi dweud y dylai'r ddyletswydd hon gael ei chyflawni drwy ddyletswydd Ofcom dan Adran 10 (er bod hyn yn cyfeirio at ddefnyddio mewn ystyr ehangach na hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr anabl) a fforwm e-hygyrchedd yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Byddwn yn parhau i

---

[9] http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/combined-award/summary/combined-award.pdf

ymwneud â'r Fforwm a mudiadau eraill i hyrwyddo offer hawdd ei ddefnyddio a hygyrch.

## Diben Strategol 4: Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau

### Sicrhau bod safonau rhaglenni effeithlon ac effeithiol yn cael eu gorfodi, yn enwedig yng nghyswllt amddiffyn plant a phobl ifanc dan 18 oed

4.45 Byddwn yn parhau i sicrhau bod y Côd Darlledu yn dal yn addas i'r diben yng nghyd-destun yr amgylchedd darlledu sy'n datblygu, gan ystyried y meini prawf statudol perthnasol gan gynnwys: yr angen i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu hamddiffyn yn briodol; safbwyntiau ac anghenion dinasyddion a defnyddwyr; a'n dyletswydd i leihau'r beichiau rheoleiddiol ar ddarlledwyr.

4.46 Bydd Ofcom yn parhau i ddefnyddio'r Côd Darlledu drwy asesu a chanfod materion cydymffurfio ar draws gwasanaethau teledu a radio a, phan fo'n briodol, ymchwilio a chymryd camau gweithredu.

4.47 Yn benodol, byddwn yn sicrhau ffocws gorfodi cryf ar:

- Amddiffyn y gynulleidfa – yn enwedig yng nghyswllt amddiffyn plant a phobl ifanc dan 18 oed a chynulleidfaoedd eraill rhag niwed posibl.
- Amddiffyn defnyddwyr – sicrhau cydymffurfiaeth y drefn reoleiddiol newydd ar gyfer cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu a radio, ac adolygu'r farchnad lleoli cynnyrch sy'n datblygu ar y teledu.
- Cydymffurfiaeth – sicrhau bod amddiffyniadau craidd ar gyfer cynulleidfaoedd yn cael eu gorfodi'n drwyadl ar bob sianel.

### Gweithio gyda chyrff cyd-reoleiddio a hunan-reoleiddio ee ASA, ATVOD ac UKCCIS

4.48 Bydd Ofcom yn parhau i weithio gyda gwaith y cyrff cyd-reoleiddio a hunan-reoleiddio. Bydd hyn yn cynnwys parhau ein perthynas â'r ASA yng nghyswllt ei arolygiaeth dros ddarllediadau hysbysebu ac yn ei swyddogaeth newydd yn goruchwylio hysbysebu ar fideo ar wasanaethau ar alwad. Byddwn hefyd yn gweithio gydag ATVOD wrth iddo symud i'w flwyddyn lawn gyntaf o waith yn rheoleiddio cynnwys golygyddol ar wasanaethau fideo ar alwad a byddwn yn parhau i gefnogi gwaith Cyngor y DU ar gyfer Diogelwch Plant ar y Rhyngrwyd.

### Trwyddedu gwasanaethau teledu a radio yn y DU (o bosibl gan gynnwys gwasanaethau teledu lleol newydd)

4.49 Bydd Ofcom yn parhau i drwyddedu gwasanaethau teledu a radio a ddaw dan awdurdodaeth y DU, i ddarparu ystod o wasanaethau i ddefnyddwyr. Bydd hyn yn cynnwys gwahodd ceisiadau ar gyfer trydedd rownd o drwyddedu gorsafoedd radio cymunedol. Y rhanbarthau cyntaf fydd Cymru a De Orllewin Lloegr, gyda rhannau eraill o'r DU i ddilyn.

4.50 Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r llywodraeth i ddatblygu trefn trwyddedu newydd ar gyfer gwasanaethau teledu lleol.

4.51 Byddwn yn adolygu ein ffocws ar faterion cydymffurfio, yn enwedig ar gyfer sianeli risg uwch.

### Ymgysylltu â Channel 4 ynghylch ei fframwaith newydd

4.52 Roedd Deddf Economi Ddigidol 2010 wedi sefydlu fframwaith newydd ar gyfer rheoleiddio Corfforaeth Channel 4, gan gynnwys cylch gwaith newydd a'r *Datganiad o Bolisi Cynnwys Cyfryngau*. Mae'r cylch gwaith newydd yn pwysleisio blaenoriaethau newydd ar gyfer Channel 4, gan gynnwys ffilmiau nodwedd, cynnwys ar gyfer plant hŷn ac oedolion ifanc, a datblygu talent yn y diwydiant cyfryngau.

4.53 Mae Ofcom yn gyfrifol am adolygu perfformiad Channel 4 dan y fframwaith newydd hwn, ac yn 2011/12 byddwn yn ymgysylltu â Channel 4 ynghylch cynnwys ei *Ddatganiad o Bolisi Cynnwys Cyfryngau*. Caiff y cyntaf o'r rhain ei gyhoeddi ym mis Mai 2011.

## Diben Strategol 5: Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd a'i weithredu

### Gweithredu cyfrifoldebau rheoleiddio newydd gan gynnwys y rheini sy'n deillio o'r Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd diwygiedig

4.54 Mae llawer o waith manwl Ofcom ym maes rheoli telegyfathrebiadau a sbectrwm yn cael ei wneud o fewn rheolau Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd 2002. Cafodd y Fframwaith ei adolygu yn 2009, a rhaid i'r newidiadau sy'n deillio ohono gael eu gweithredu yng nghyfraith y DU erbyn mis Mai 2011. Y llywodraeth sy'n bennaf gyfrifol am weithredu, ond bydd Ofcom yn cyfrannu at y broses hon mewn nifer o feysydd penodol.

4.55 Rhaid i Ofcom gwblhau ei adolygiad o nifer o Amodau Cyffredinol (rhwymedigaethau wedi'u cyfeirio at ddarparwyr gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig) erbyn mis Mai 2011, er mwyn dod â nhw'n unol â'r Fframwaith diwygiedig. Ar ben hynny, ceir nifer o feysydd eraill lle mae'r Fframwaith diwygiedig yn rhoi pwerau newydd neu wahanol i Ofcom, megis mewn perthynas â gorfodi rhwymedigaethau rheoleiddio, rhoi cosbau am dorri rhwymedigaethau rheoleiddio a gweithdrefnau datrys anghydfodau. Mae Ofcom yn bwriadu naill ai ymgynghori ynghylch neu gyhoeddi canllawiau diwygiedig ar y meysydd hyn cyn dyddiadau cau ar gyfer gweithredu ym mis Mai. Pan fydd y Fframwaith diwygiedig yn cynnwys pwerau caniataol newydd, mae Ofcom yn bwriadu adolygu'r angen i ddefnyddio pwerau o'r fath.

4.56 Mae diogelwch a gwytnwch yn un maes penodol lle mae'r Fframwaith diwygiedig yn cyflwyno pwerau newydd ar gyfer Ofcom, a dyletswyddau newydd ar ddarparwyr cyfathrebiadau cyhoeddus. Bydd gofyn i'r darparwyr yr effeithir arnynt gymryd camau i gynnal diogelwch ac argaeledd eu rhwydweithiau a'u gwasanaethau, a rhoi gwybod i Ofcom am fethiannau sylweddol. Rydym yn cyhoeddi arweiniad lefel uchel cyn y darpariaethau newydd hyn yn egluro sut bydd y gofynion newydd yn cael eu dehongli a gosod trothwyon adrodd.

### Cynnal adolygiad seilwaith cyntaf, yn unol â Deddf Economi Ddigidol 2010

4.57 Mae Deddf Economi Ddigidol 2010 yn rhoi dyletswydd newydd i Ofcom adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol bob tair blynedd ar gyflwr seilwaith cyfathrebiadau'r DU. Caiff yr adroddiad cyntaf ei gyflwyno ym mis Awst 2011. Mae'r Ddeddf yn pennu nifer o

feysydd adrodd, gan gynnwys defnyddio sbectrwm ar gyfer telegraffiaeth di-wifr, capasiti, argaeledd a darpariaeth rhwydweithiau a gwasanaethau, graddfa rhannu'r seilwaith a mynediad cyfanwerthu, ac asesiadau risg gweithredwyr a chynlluniau ymateb i argyfwng.

4.58 Byddwn yn adrodd ar y llais, y data a'r rhwydweithiau a'r gwasanaethau darlledu digidol a ddefnyddir amlaf ac sydd ar gael ehangaf, gan roi ffocws penodol ar ddarpariaeth symudol a band eang. Byddwn hefyd yn ceisio sôn am ddatblygiadau mewn technolegau pwysig sy'n dod i'r fei megis mynediad band eang symudol a band eang sefydlog y genhedlaeth nesaf. Bydd yr adroddiad yn defnyddio data Ofcom sydd eisoes ar gael, wedi'i ategu gan ddata newydd gan weithredwyr pan fydd hynny'n briodol.

## Darparu cefnogaeth a chyngor technegol i'r llywodraeth ar weithredu polisïau

### *Darparu cyngor technegol ar gyfer cyflenwi teledu lleol*

4.59 Mae'r llywodraeth wedi pennu ei bwriad i sicrhau deg i 20 gorsaf deledu leol erbyn diwedd 2015. Mae Ofcom wedi darparu cyngor a chymorth technegol i'r llywodraeth wrth iddi ffurfio ei pholisi.

4.60 Byddwn yn parhau i helpu'r llywodraeth wrth iddi ddatblygu ei pholisi drwy gynghori ar ddichonoldeb modelau cyflenwi gwahanol, gan gynnwys defnyddio sbectrwm rhyngddalennog. Ar ben hynny, yn amodol ar y model o deledu lleol a ddewisir, efallai y bydd yn rhaid i Ofcom ddechrau gweithredu polisi'r llywodraeth.

### *Cefnogi datblygu'r llwyfan darlledu sain digidol (DAB)*

4.61 Mae'r llywodraeth, drwy'r Cynllun Gweithredu Radio Digidol, wedi gofyn i Ofcom chwarae swyddogaeth gefnogol dechnegol i ddatblygu polisi'r llywodraeth a gweithio at ddigideiddio darlledu radio. Yn benodol, gofynnwyd i ni adrodd yn flynyddol ar y farchnad radio digidol, ac arwain proses gynllunio ar gyfer lledaenu darpariaeth DAB i'r lefelau gofynnol. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2011/2.

4.62 Rydym yn cynnig cyhoeddi'r ail *Adroddiad Cynnydd Digidol* blynyddol ar gyfer radio yn ystod chwarter cyntaf 2011/12. Byddwn yn ymgynghori ynghylch ein dull gweithredu ar gyfer cynllunio darpariaeth cyn cyflwyno ein hadroddiad terfynol i'r llywodraeth gydag argymhellion ar gyfer cynllunio trawsyrru technegol i gynyddu lefelau darpariaeth DAB. Efallai bydd gofyn i ni ysgwyddo swyddogaeth tymor hwy yn ymwneud â darpariaeth DAB a chynllunio sbectrwm, os bydd llywodraeth a diwydiant yn parhau i symud ymlaen at newid.

4.63 Mae Cynllun Gweithredu Radio Digidol y llywodraeth hefyd yn gofyn i Ofcom ystyried ac adnabod ffyrdd o ddefnyddio sbectrwm MW ac FM gwag yn y dyfodol wrth newid i'r digidol ar gyfer radio; rydym yn disgwyl dechrau gwaith ar hyn yn ystod 2011/12.

4.64 Yn ein datganiad diweddar ar hyd trwyddedau radio analog masnachol lleol, roeddem wedi dod o hyd i'r angen i adolygu'r polisi hwn petai datblygiadau sylweddol. Bydd canlyniad trafodaethau presennol rhwng y llywodraeth a'r sector radio ynghylch cyfeiriad polisi newid i'r digidol DAB yn y dyfodol - yn ogystal â phapur gwyrdd Mesur Cyfathrebiadau, fel y cyhoeddwyd yng Nghynllun Diwygio Strwythurol yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon - yn cyfrannu at adolygiad yn gynnar yn ystod 2012.

## Cefnogi ymrwymiad gwasanaeth cyffredinol y llywodraeth

4.65 Rydym yn cefnogi'r llywodraeth gyda'i nod o wneud rhwydwaith band eang cyflym iawn Prydain gyda'r gorau yn Ewrop a sicrhau bod gwasanaeth band eang sylfaenol ar gael i bron bob cartref. Caiff y rhaglen hon ei harwain gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon[10]. Rydym yn darparu cefnogaeth drwy rannu ein gwybodaeth dechnegol yn ôl y galw.

## Cynrychioli'r gwledydd

4.66 Byddwn yn parhau i weithio at hybu bod mwy o wasanaethau cyfathrebiadau ar gael a'u bod yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol ymysg defnyddwyr ledled y DU. Drwy wneud hynny byddwn yn parhau i fonitro faint sy'n defnyddio'r gwasanaethau a faint ohonynt sydd ar gael yn y gwledydd datganoledig, yn enwedig pan fydd hyn yn wahanol i gyfartaledd y DU. Caiff hyn ei adlewyrchu yn nifer o'n blaenoriaethau a'n meysydd gwaith. Er enghraifft, bydd ein gwaith yng nghyswllt mannau gwan symudol yn ystyried gwahaniaethau o ran rhai gwasanaethau cyfathrebiadau sydd ar gael.

## Deall a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr hŷn ac anabl

4.67 Fel rhan o ddyletswyddau Ofcom, mae'n rhaid i ni ystyried anghenion pobl anabl a phobl hŷn wrth i ni gyflawni ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod gwasanaethau cyfathrebiadau priodol ar gael.

4.68 Yn 2011/12, fel y nodwyd yn gynharach, bydd Ofcom yn cwblhau ei adolygiad o wasanaethau cyfnewid sy'n helpu defnyddwyr sydd â nam ar eu clyw a'u lleferydd i wneud a derbyn galwadau ffôn. Bydd Ofcom hefyd yn parhau i hyrwyddo offer i ddefnyddwyr sy'n hawdd ei ddefnyddio ac yn hygyrch, a bydd yn cynnal rhaglen ymchwil fanwl i ymchwilio i raddfa llythrennedd yn y cyfryngau yn y DU.

## Cefnogi ar gyfer newid i'r digidol ar gyfer teledu

4.69 Bydd Ofcom yn parhau i gefnogi'r newid i'r digidol ar gyfer teledu yn 2011/12. Mae gan Ofcom ddyletswyddau statudol i: ddiwygio trwyddedau darlledwyr; rheoli'r sbectrwm radio; a sicrhau bod gofynion darpariaeth teledu statudol yn cael eu diwallu. Bydd Ofcom yn gweithio gyda Digital UK, llywodraeth y DU, darlledwyr, y Grŵp Teledu Digidol a rhanddeiliaid eraill.

## Cefnogi ar gyfer newid i'r digidol ar gyfer radio

4.70 Bydd Ofcom yn cwblhau ei waith yn arwain proses cynllunio darpariaeth i adrodd i'r llywodraeth ynghylch sut gellir cynyddu darpariaeth DAB i gyrraedd yr un lefel ag FM. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at ystyriaethau'r llywodraeth o unrhyw newid i'r digidol ar gyfer radio yn y dyfodol. Bydd Ofcom hefyd yn parhau i gefnogi Cynllun Gweithredu Radio Digidol y llywodraeth, gan weithio gyda darlledwyr, Digital Radio UK ac Arqiva.

## Ymgysylltu â datblygu polisïau Ewropeaidd a pholisïau rhyngwladol ehangach

4.71 Byddwn yn ymgysylltu â datblygu fframweithiau rheoleiddio rhyngwladol y mae’r DU, Ofcom a’n rhanddeiliaid yn gweithredu o’u mewn, i sicrhau eu bod yn ymarferol, yn gymesur a’u bod yn gwasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU.

[10] http://interactive.bis.gov.uk/comment/bduk/

4.72 Un newid pwysig fu disodli'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd (ERG) gan y Corff o Reoleiddwyr Ewropeaidd mewn Cyfathrebiadau Electronig (BEREC), rhwydwaith cryfach gyda set ehangach o swyddogaethau a swyddogaeth ffurfiol ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd diwygiedig. Bydd Ofcom yn gweithio i sicrhau llwyddiant BEREC a'i raglen waith ar gyfer 2011.

4.73 Bydd Ofcom yn gweithio gyda rheoleiddwyr cyfathrebiadau mewn gwledydd Ewropeaidd eraill ac ym mhedwar ban byd, yn ddwyochrog a drwy rwydweithiau rheoleiddio megis BEREC, y Grŵp Polisi Sbectrwm Radio (RSPG), a'r Llwyfan Ewropeaidd o Awdurdodau Rheoleiddio (EPRA), i ddilyn dull gweithredu cydlynol o ran rheoleiddio gwasanaethau cyfathrebiadau rhyngwladol. Byddwn hefyd yn ymwneud â CEPT a'r ITU.

4.74 Byddwn yn cysylltu â sefydliadau Ewropeaidd, wrth i'r Comisiwn ddatblygu ei Agenda Digidol Ewropeaidd, a chyfrannu mewn meysydd lle gallwn ni ychwanegu gwerth neu sy'n effeithio arnom ni a'n rhanddeiliaid yn uniongyrchol.

### Adroddiad ar addasiadau newid hinsawdd yn unol â Deddf Newid Hinsawdd 2008

4.75 Dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 gellir mynnu bod cyrff cyhoeddus a busnesau statudol yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar effaith newid yn yr hinsawdd ar eu swyddogaethau a sut maent yn bwriadu addasu. Mae Ofcom wedi cael cyfarwyddiadau i baratoi ei adroddiad cyntaf erbyn 30 Medi 2011.

### Llythrennedd yn y Cyfryngau

4.76 Byddwn yn parhau â'n rhaglen ymchwil i ymchwilio i raddfa llythrennedd yn y cyfryngau yn y DU ac i adnabod materion llythrennedd yn y cyfryngau sy'n dod i'r fei. Byddwn hefyd yn ceisio hyrwyddo ein hymchwil yn eang i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau i osgoi dyblygu. Mae sefydliadau yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn gofyn am ein data yn rheolaidd a chawn ein dyfynnu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol. Maent yn cefnogi ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at waith cyrff megis, UKCCIS, Get Safe Online a Race Online 2012.

### Y Mesur Cyfathrebiadau

4.77 Mae'r llywodraeth wedi datgan ei bod yn bwriadu cyflwyno Mesur Cyfathrebiadau newydd i'w ddeddfu erbyn diwedd y Senedd bresennol. Byddwn yn cyfrannu at y gwaith hwn pan fo'n briodol.

## Gwaith parhaus arall sy'n cefnogi dyletswyddau ac amcanion Ofcom

4.78 Yn ogystal â'r meysydd gwaith uchod, mae gennym nifer o brosiectau eraill ar y gweill fel sy'n briodol:

- Byddwn yn cynnal asesiadau o effaith y BBC ar y farchnad yn ôl y gofyn, gan weithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth y BBC.
- Byddwn yn gweithio gyda'r Swyddfa Masnachu Teg a rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn deall y manteision posibl sydd ynghlwm wrth uno papurau newydd lleol, gan gynnal asesiadau o gyfryngau lleol fel sy'n briodol.

4.79 Gan gefnogi ein rhaglen waith gyffredinol, byddwn hefyd yn gweithio i ddatblygu safbwynt clir ar:

- Sut mae'r sectorau cyfathrebiadau'n debyg o ddatblygu dros amser.
- Pa oblygiadau y bydd hyn yn ei olygu i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion, yn gadarnhaol ac yn negyddol.
- Pa oblygiadau y bydd y datblygiadau hyn yn ei olygu o ran rheoleiddio.

## Adran 5

# Gwasanaethau i randdeiliaid

## Mae Ofcom yn darparu nifer o wasanaethau hanfodol i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid eraill

5.1 Mae gennym ystod eang o gyfrifoldebau a gyflawnwn drwy weithredu prosiectau penodol neu drwy gynnig gwasanaethau i ddefnyddwyr.

### Ymateb i ymholiadau gan ddefnyddwyr a chwynion gan y cyhoedd

5.2 Mae Tîm Gweithrediadau Ofcom yn delio gydag ymholiadau a chwynion gan ddefnyddwyr am wasanaethau telegyfathrebiadau, gwasanaethau teledu a radio a'r defnydd o'r sbectrwm radio. Ein nod yw helpu defnyddwyr i ddatrys eu hymholiadau a'u cwynion drwy eu cyfeirio at gyngor defnyddiol a drwy gysylltu â darparwyr gwasanaeth.

5.3 Bydd pobl yn aml yn cwyno'n uniongyrchol wrthym am raglenni teledu a radio. Rydym yn ystyried cwynion am nifer o feysydd megis diogelu pobl dan 18 oed, niwed a thramgwydd, tegwch a phreifatrwydd a bod yn ddiduedd ac yn gywir wrth gyflwyno newyddion. Rydym hefyd yn delio â chwynion am noddwyr rhaglenni a dylanwad masnachol honedig.

5.4 Mae Tîm Cynghori Ofcom yn rhoi rhybudd cynnar ynghylch pryderon defnyddwyr. Mae meysydd newydd o bryder yn codi drwy'r amser ac mae'r rhain yn achosi cynnydd annisgwyl yn nifer y cwynion a gawn.

### Cadw'r sbectrwm radio'n rhydd rhag ymyrraeth

5.5 Rydym yn monitro'r sbectrwm radio ac yn cymryd camau priodol i atal ymyrraeth niweidiol ar y sbectrwm. Mae'r mwy o alw am sbectrwm a defnyddio mwy arno yn arwain at fwy o risg o ymyrraeth. Mae Ofcom yn parhau i wella a moderneiddio ei adnoddau i atal hyn rhag digwydd a lliniaru pan fydd yn digwydd.

5.6 Mae ein tîm Peirianneg a Gorfodi Sbectrwm yn delio ag oddeutu 5,000 o achosion y flwyddyn, gan weithredu i:

- amddiffyn cyfathrebu diogelu bywyd, gan gynnwys y gwasanaethau brys a'r gwasanaeth rheoli traffig awyr;
- atal y sbectrwm radio rhag cael ei ddefnyddio'n anghyfreithlon;
- caniatáu defnydd cyfreithlon ar y sbectrwm, er enghraifft drwy ddarparu cyngor a chymorth i ddefnyddwyr sbectrwm; a
- sicrhau y caiff offer nad yw'n cydymffurfio ei dynnu oddi ar y farchnad

### Trwyddedu mynediad at y sbectrwm radio

5.7 Mae Ofcom yn rheoli mynediad at y sbectrwm radio drwy gyhoeddi, adnewyddu a diddymu trwyddedau. Lle bo angen, rydym yn aseinio amledd, yn clirio safleoedd ac yn cydlynu'r defnydd o sbectrwm yn rhyngwladol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym

wedi cyhoeddi oddeutu 18,000 o drwyddedau sbectrwm, (heb gynnwys adnewyddu) sy'n berthnasol i ddefnyddwyr lloeren, dolen sefydlog, radio busnesau preifat, amatur, morol a defnyddwyr eraill.

### Darparu gwasanaethau gwybodaeth

5.8 Mae Ofcom yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ddefnyddio'r sbectrwm radio. Mae hyn yn gyfraniad pwysig at gydlynu'r defnydd o sbectrwm yn effeithlon: Mae Ofcom hefyd yn hwyluso prynu a gwerthu trwyddedau sbectrwm gan randdeiliaid.

### Cyhoeddi adroddiadau ymchwil marchnad ac adroddiadau ar y farchnad gyfathrebu

5.9 Rydym yn cyhoeddi ymchwil ar y sector cyfathrebiadau ac agweddau dinasyddion a defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys *Adroddiadau y Farchnad Gyfathrebu*; yr *Adroddiad Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus*; yr adroddiad blynyddol *Radio Digidol*; a'r adroddiadau *Profiad y Defnyddiwr a Phrofiad y Defnyddiwr Busnes*.

5.10 Rydym hefyd yn cyhoeddi ymchwil i gefnogi prosiectau a chyhoeddiadau Ofcom. Mae ein hagwedd at ymchwil yn sicrhau ein bod yn gallu casglu tystiolaeth sy'n ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau statudol i hyrwyddo cydraddoldeb. Rydym hefyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Ystadegau drwy ddarparu ein hystadegau ymchwil a marchnad mewn ffordd amserol.

### Mabwysiadu arferion cynaliadwy

5.11 Mae Ofcom yn ceisio mabwysiadu arferion cynaliadwy ac, yn dilyn archwiliad carbon cychwynnol yn 2007, rydym wedi rhoi targed i ni'n hunain i leihau 25% ar allyriadau carbon erbyn 2012/13. Rydym eisoes wedi cyflawni gostyngiad o 15% ac yn 2011/12 byddwn yn dal ati i weithio at y 10% olaf. Bydd hyn yn seiliedig ar gyflawni arbedion drwy ddefnyddio canolfannau data gwyrddach, adolygu ein hargraffu a hyrwyddo teithio cynaliadwy.

### Cyfrifoldeb corfforaethol

5.12 Nid yn unig y mae Ofcom wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr cyfrifol ond mae hefyd wedi ymrwymo i reoli ei effaith ar y gymuned ehangach. Dyma ein dibenion cyfrifoldeb corfforaethol:

- Trin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg.
- Hybu cyfle cyfartal i bawb, nid yn unig yn Ofcom ond yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio hefyd.
- Lleihau ein hôl troed carbon, a sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol.
- Ymgysylltu, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr wrth fynd ati'n rhagweithiol i geisio cefnogi ein cymuned leol.

5.13 Rydym wedi dod yn ein blaenau yn dda o ran cyflawni'r amcanion yn ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl. Yn 2011/12 byddwn yn gosod targedau ychwanegol lle bo angen, er mwyn ystyried Ddeddf Cydraddoldeb newydd 2010.

5.14 Rydym yn parhau i redeg ein cynllun darllen poblogaidd ar gyfer gwirfoddolwyr Ofcom i gefnogi plant ysgol gynradd lleol, ac yn 2011/12 byddwn yn edrych ar y cyfle i ddefnyddio gwirfoddoli i gefnogi datblygiad cydweithwyr ymhellach ac effeithlonrwydd tîm.

## Adran 6

# Agwedd Ofcom at reoleiddio

### Rydym yn ceisio lleihau beichiau rheoleiddio

6.1 Wrth gyflawni ein dyletswyddau a diwallu ein dibenion strategol, rydym yn dilyn set bendant o egwyddorion rheoleiddiol. Sef:

### Pryd byddwn yn rheoleiddio

- Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen.
- Bydd Ofcom yn ymyrryd pan mae dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

### Sut rydym yn rheoleiddio

- Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ei amcanion.
- Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ymyriadau ar sail tystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau.
- Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda Chynllun Blynyddol clir ac a adolygir yn gyhoeddus, gydag amcanion sydd wedi cael eu datgan.

### Sut byddwn yn cefnogi rheoleiddio

- Bydd Ofcom yn ymchwilio i'r farchnad cyfathrebu ac yn ceisio aros ar y blaen i ddealltwriaeth dechnolegol.
- Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

6.2 Ein nod yw rheoleiddio dim ond pan fydd hynny'n angenrheidiol. Lle mae angen ymyrryd, byddwn yn ymateb yn gyflym ac yn gadarn, ond gan gydnabod y gallai ymyrraeth ddiangen ystumio neu lesteirio datblygiad marchnadoedd cystadleuol ac arloesol.

6.3 Mae Adran 6 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ('Adran 6') yn rhoi dyletswydd ar Ofcom i beidio â rhoi beichiau diangen na chynnal beichiau sydd wedi dod yn ddiangen. Mae Adran 6 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi datganiad yn dangos sut y byddwn yn cyflawni'r ddyletswydd hon, ac rydym wedi gwneud hynny drwy'r *Cynllun Symleiddio* yn ein *Cynllun Blynyddol Drafft* ar gyfer 2011/12 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011.

## Mae ein hagwedd at reoleiddio wedi'i dylunio i leihau beichiau

6.4 Ar ben ein hegwyddorion rheoleiddio, ceir nifer o themâu sy'n bwysig i'n gwaith. Bydd y rhain yn dal yn bwysig drwy gydol 2011/12:

- Ystyried sut mae ein gwaith a sut mae canlyniadau'n berthnasol i bob un o wledydd y DU. Caiff gwaith Ofcom ei ddylanwadu fwyfwy gan oblygiadau newidiadau a gwahaniaethau sefydliadol yn y gwledydd.

- Mae glynu wrth becyn cymorth budd defnyddwyr Ofcom yn ffordd o sicrhau bod Ofcom yn canfod ac yn rhoi sylw i fuddiannau defnyddwyr ar draws ei waith.

6.5 Mae adran 7 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn dweud ei bod yn rhaid i Ofcom gyflawni a chyhoeddi Asesiad o’r Effaith pan ymddengys fod ein cynnig yn bwysig. Rydym yn cynnal Asesiadau o’r Effaith yng nghyswllt y rhan fwyaf o’n penderfyniadau. Maent yn rhoi ffordd o adnabod y problemau y mae angen rhoi sylw iddynt, ystyried dewisiadau gwahanol (gan gynnwys peidio â rheoleiddio) ac wedyn dewis yr opsiwn sy’n rhoi’r mwyaf o fanteision posibl ac sy’n lleihau costau ymyrryd.

6.6 Rydym yn cyflawni ein dyletswyddau mewn ffordd sy’n cyd-fynd ag egwyddorion Gwell Rheoleiddio. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid i ymyriadau rheoleiddio fod ar sail tystiolaeth, yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi’u targedu dim ond at achosion y mae angen gweithredu yn eu cylch.

6.7 Mae rheoleiddio cymesur ac wedi’i dargedu wedi chwarae rhan allweddol o ran sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr y DU. Er bod treth beichiau ar gwmnïau wedi’u rheoleiddio yn rhan annatod o reoleiddio, rydym yn credu bod cyfiawnhad dros yr ymyriadau pan mae’r manteision cyffredinol a fydd yn deillio ohonynt yn drech na’r beichiau hyn.

6.8 Rydym yn defnyddio egwyddor bod yn gymesur yn ein gwaith ac felly’n canolbwyntio ar y costau a'r manteision pwysicaf gan geisio osgoi treulio gormod o amser ar gostau a manteision eithaf dibwys. Hefyd, rhaid i faint o wybodaeth rydym yn gofyn amdani gan randdeiliaid er mwyn cyflawni’r dadansoddiad fod yn gymesur.

6.9 Wrth asesu dewisiadau ar gyfer ymyrryd, rydym yn ystyried ystod o atebion. Mae’r rhain yn cynnwys dim rheoleiddio o gwbl, hunan-reoleiddio gan y diwydiant ei hun (heb drosolwg na phwerau rheoleiddio stopio’n ôl), cyd-reoleiddio (lle mae gan y llywodraeth neu’r rheoleiddiwr bwerau stopio’n ôl a rhywfaint o drosolwg), ac ymyriad statudol llawn.

6.10 Drwy gydol 2009 a 2010 mae Ofcom wedi datblygu arweiniad rheoli prosiectau mewnol i sicrhau bod pob rheolwr prosiect yn deall ac yn ystyried asesiadau effaith, asesiadau effaith ar gydraddoldeb, risg, cyd-reoleiddio a hunan-reoleiddio, a diffinio metreg llwyddiant, a'u bod felly yn teilwra eu dull gweithredu er mwyn rhoi sylw i bob maes sy'n achosi pryder.

## Rydym yn adolygu rheoleiddio’n rheolaidd er mwyn archwilio a yw’n dal yn addas i’r diben ac yn tynnu beichiau pan nad oes cyfiawnhad drostynt mwyach

6.11 Pan fydd y rheoleiddio ar waith, rydym yn ei adolygu o bryd i’w gilydd er mwyn ystyried newidiadau yn amodau’r farchnad, anghenion rhanddeiliaid a gofynion statudol ac rydym yn cynnal adolygiadau ffurfiol. Caiff ymyriadau pwysig eu gwerthuso hefyd yn erbyn y canlyniadau yr oeddent i fod i’w cyflawni. Mae adolygiadau a gwerthusiadau yn ein galluogi i bennu a oes cyfiawnhad o hyd dros y rheoliadau presennol a’r beichiau sydd ynghlwm wrthynt.

6.12 Ers ei greu mae Ofcom wedi ceisio cymryd agwedd strategol at reoleiddio, gan gyhoeddi adolygiadau sectoraidd amrywiol. Er bod y rhain yn gallu arwain at feichiau gweinyddol ar randdeiliaid drwy geisiadau am wybodaeth a'r broses ymgynghori, maent yn angenrheidiol er mwyn i ni gasglu sylfaen dystiolaeth i'w dadansoddi. Ar y llaw arall, mae agwedd strategol at reoleiddio'n lleihau'r tebygolrwydd y rhoddir sawl baich diangen ar randdeiliaid.

## Atodiad 1

# Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

## Rhagarweiniad

A1.1 Cawsom 38 ymateb i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid, yn cynnwys unigolion preifat, grwpiau eiriolaeth, mudiadau buddiannau defnyddwyr, cwmnïau a chyrff masnach. Gwnaethom hefyd gynnal digwyddiadau ledled y DU i rannu ein rhaglen waith arfaethedig, a chawsom gwestiynau ac adborth yn y cyfarfodydd hyn.

A1.2 Ar y cyfan, cafwyd cefnogaeth eang i'n blaenoriaethau a'n rhaglen waith, ond codwyd rhai materion gan randdeiliaid ar agweddau penodol o'n rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2011/12. Lle bo'n bosib, rydym wedi crynhoi'r materion hyn a'n hymatebion iddynt yn yr atodiad hwn, ond nid yw'n bosibl i ni ymateb i'r holl gwestiynau manwl.

## Sylwadau cyffredinol ar y Cynllun Blynyddol Drafft

### Proses y Cynllun Blynyddol

A1.3 Roedd rhai rhanddeiliaid wedi gofyn am gyhoeddi'r Cynllun Blynyddol yn gynt ac am gyfnod ymgynghori hirach.

A1.4 *Mae'r ymgynghoriad ar y Cynllun Blynyddol Drafft wedi'i amseru fel bod rhanddeiliaid yn cael cyfle i roi sylwadau ar ein rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ganlynol, ond hefyd i'n galluogi i ymateb i'n hamserlen statudol a chyhoeddi'r Cynllun Blynyddol terfynol cyn y flwyddyn ariannol newydd. Cyhoeddwyd Cynllun Blynyddol drafft eleni ychydig yn hwyrach na'r arfer er mwyn adlewyrchu effaith Adolygiad o wariant y llywodraeth ar Ofcom.*

A1.5 Gofynnodd sawl rhanddeiliad i Ofcom ddarparu gwybodaeth ychwanegol mewn Cynlluniau Blynyddol Drafft yn y dyfodol, yn cynnwys gwybodaeth am y gyllideb, mwy o fanylion am brosiectau, a nodi'r gweithgareddau hynny y mae Ofcom yn bwriadu eu lleihau neu eu dirwyn i ben.

A1.6 *Lle bydd yn glir ein bod yn lleihau neu'n dirwyn gwaith i ben, byddwn yn cyfleu hynny, fel rydym wedi'i wneud gyda chyfranogaeth ddigidol yn y ddogfen hon. Rhoddir gwybodaeth am y gyllideb yn ein Tablau Tariffau ac yn ein Hadroddiad Blynyddol, sy'n rhoi manylion ein perfformiad yn erbyn cyllideb y flwyddyn flaenorol. Ceir rhagor o fanylion am brosiectau penodol yn ein Rhaglen Waith, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Cynllun Blynyddol hwn yma.*

A1.7 Roedd un rhanddeiliad y diwydiant wedi gofyn am ragor o wybodaeth ar linellau adrodd a strwythur newydd Ofcom.

A1.8 *Ar 1 Chwefror, gwnaethom gyhoeddi ein strwythur newydd ar ein gwefan. Gellir gweld y strwythur hwn yma.*

### Gostyngiadau yn y gyllideb a'u heffaith ar waith parhaus Ofcom

A1.9 Soniodd nifer o randdeiliaid am y gostyngiad yng nghyllideb Ofcom o ganlyniad i'r Adolygiad o Wariant. Roedd rhanddeiliaid am wybod a fyddai Ofcom yn dal i allu parhau i gyflawni ei ddyletswyddau i ddinasyddion a defnyddwyr, yn ogystal ag

ysgwyddo cyfrifoldebau newydd ym maes torri hawlfraint ar-lein a gwasanaethau post.

A1.10 Hefyd, soniodd rhanddeiliaid am bwysigrwydd ein hymchwil i anghenion dinasyddion a defnyddwyr gan ofyn i hyn gael ei adlewyrchu yn ein proses gyllidebu.

A1.11 *Rydym wedi cynllunio'r newidiadau i'n gwariant ac i'n trefn lywodraethu er mwyn i ni allu parhau i wneud penderfyniadau rheoleiddio o safon uchel a chyflawni ein holl ddyletswyddau statudol. Byddwn yn monitro effaith ein penderfyniadau i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau er budd dinasyddion a defnyddwyr ledled y DU.*

A1.12 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid ffyrdd y gallai Ofcom wneud arbedion neu flaenoriaethu gweithgareddau yng nghyd-destun llai o gyllideb. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Neilltuo'r gyllideb ar gyfer prosiectau telegyfathrebiadau fel bod arbedion effeithlonrwydd mewn prosiectau telegyfathrebiadau yn cael eu trosglwyddo'n ôl i randdeiliaid ar ffurf taliadau gweinyddol is. *Pennir ein ffioedd gweinyddol i adlewyrchu cwmpas a natur ein rhaglen waith gyffredinol. Ceir rhagor o fanylion yn ein Tabl Tariffau a gyhoeddwyd yma  ac yn ein Datganiad ar Egwyddorion Codi Tâl yma.*

- Blaenoriaethu'r rhaglen adolygiad o'r farchnad a lleihau rheoleiddio. *Byddwn yn parhau i ddarparu ein rhaglen o adolygiadau marchnad ac yn glynu wrth ein hegwyddor rheoleiddio i ddadreoleiddio lle bynnag y bo'n bosibl ac i ddarparu rheoleiddio effeithiol lle na allwn wneud hynny.*

- Chwilio am arbedion effeithlonrwydd o ran teithio rhyngwladol ac ymgysylltu rhyngwladol. Fodd bynnag, pwysleisiodd nifer o randdeiliaid bwysigrwydd y gwaith ymgysylltu rhyngwladol a wnawn, gan ein hannog i barhau i ymgysylltu ar faterion sbectrwm a materion nad ydynt yn ymwneud â'r sbectrwm. *Mae ein cyfraniad mewn fforymau rhyngwladol yn rhan bwysig o'n gwaith, yn enwedig mewn cysylltiad â chytgordio sbectrwm.  Pan fyddwn yn ymgysylltu, rydym yn gwneud hynny mewn ffordd cost effeithiol.*

## Dibenion a blaenoriaethau

A1.13 Daeth nifer o sylwadau cyffredinol i law ar ein dibenion a'n blaenoriaethau. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Croesawyd ein dibenion newydd gan randdeiliad ym maes telegyfathrebiadau, ond mynegodd ei siom nad oedd Ofcom wedi ymgynghori arnynt.

- Teimlai llawer o randdeiliaid fod perygl y gallai cynnwys cynifer o flaenoriaethau yn y Cynllun Blynyddol arwain at ddiffyg ffocws strategol.

- Gofynnodd gweithredwr ffonau symudol i ni gyflwyno'r blaenoriaethau yn nhrefn pwysigrwydd cymharol.

A1.14 *Nid ydym wedi ymgynghori ar ein dibenion. Yn hytrach, gwnaethom ymgynghori ar y blaenoriaethau a'r meysydd gwaith ar gyfer 2011/12. Mae hyn yn ein galluogi i gasglu adborth ar y prosiectau penodol y byddwn yn eu rhoi ar waith. Mae nifer y blaenoriaethau'n adlewyrchu ehangder gwaith Ofcom ar draws y sector cyfathrebu.*

*Mae Ofcom yn nodi blaenoriaethau a meysydd gwaith fel rhan o'n cynllun gwaith cyffredinol i dynnu sylw at eu pwysigrwydd o ran cyflawni ein dyletswyddau.*

A1.15 Gofynnodd nifer o randdeiliaid am ragor o fanylion am ganlyniadau gwaith Ofcom a sut y byddem yn asesu cynnydd yn eu herbyn.

A1.16 *Yn y Cynllun Blynyddol hwn, rydym wedi rhoi rhagor o fanylion am ein canlyniadau ar dudalen 17 A 18. Bydd ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2011/12 yn cyflwyno rhagor o wybodaeth ar ddiwedd y flwyddyn.*

A1.17 Mynegodd dau o randdeiliaid y diwydiant bryder nad oedd buddiannau defnyddwyr busnes yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y Cynllun Blynyddol Drafft.

A1.18 *Mae gan Ofcom gyfrifoldebau i gwsmeriaid preswyl a busnes fel ei gilydd, ac rydym yn nodi'r pryder hwn. Mae ein rhaglen waith ar gyfer 2011/12 yn cynnwys prosiectau sy'n ymwneud â defnyddwyr busnes, e.e. ein Hadolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes a rheolaeth dros ffioedd llinellau ar les ar dudalen 19. Rydym hefyd yn gwneud gwaith a fydd o fudd i fusnesau a defnyddwyr, yn cynnwys hyrwyddo buddsoddiad mewn band eang cyflym iawn ac ardaloedd digyswllt symudol.*

### Llywodraethu

A1.19 Gofynnodd rhai rhanddeiliaid am ragor o wybodaeth am gynigion i ddirwyn rhai o'n cyrff llywodraethu i ben. Roeddent hefyd am gael gwybod sut y gellir cynnal a chadw eiriolaeth ar gyfer defnyddwyr, yn enwedig i ddefnyddwyr hŷn ac anabl.

A1.20 *Pwyllgorau Ymgynghorol y Gwledydd a Phwyllgor y Gwledydd fydd yn gyfrifol am y materion hyn. Ffurfir aelodaeth y Pwyllgorau hyn er mwyn sicrhau bod arbenigedd priodol yn y meysydd hyn i gynghori Ofcom.*

A1.21 Roedd gan sawl rhanddeiliad ddiddordeb mewn sut y byddwn yn ymgysylltu â materion yn y gwledydd datganoledig ac yn Lloegr, yn enwedig yng nghyd-destun ein cynigion i ddirwyn Pwyllgor Ymgynghorol Lloegr i ben.

A1.22 *Bydd Pwyllgor y Gwledydd a Phwyllgorau Ymgynghorol y Gwledydd yn gweithio gyda'r Gweinyddiaethau datganoledig. Bydd Ofcom yn parhau i geisio barn dinasyddion a defnyddwyr sy'n byw yn Lloegr drwy ein hymchwil a'n cyfarfodydd â rhanddeiliaid.*

A1.23 Mynegodd un rhanddeiliad bryder fod y newidiadau arfaethedig i'n strwythur llywodraethu'n mynd yn groes i ddyletswyddau dan Adrannau 3, 4, 16, 20 a 21 Deddf Cyfathrebu 2003.

A1.24 *Bydd rhai o'r newidiadau i'n strwythur lywodraethu ac i'n cyrff ymgynghorol cefnogol yn dibynnu ar newid deddfwriaethol o ganlyniad i'r Mesur Cyrff Cyhoeddus.*

## Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy

### Ymatebion cyffredinol am gystadleuaeth

A1.25 Daeth nifer o sylwadau i law gan randdeiliaid ar faterion cyffredinol a phenodol yn ymwneud â chystadleuaeth. Yn benodol, roedd y Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Defnyddwyr Hŷn ac Anabl yn dadlau nad yw cystadleuaeth ac atebion dan arweiniad y farchnad bob amser yn darparu'n effeithiol ar gyfer grwpiau lleiafrifol ac y dylid rhoi mwy o sylw i hyn yn agwedd Ofcom tuag at gystadleuaeth a marchnadoedd.

A1.26 *Byddwn yn ystyried materion penodol ac yn rhoi sylw iddynt lle bo hynny'n briodol yn ein rhaglen waith.*

## Hybu cystadleuaeth a buddsoddiad i gyflenwi band eang cyflym iawn

A1.27 Cawsom lawer o ymatebion i'n blaenoriaeth mewn cysylltiad â band eang cyflym iawn. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ddarparu band eang mewn ardaloedd gwledig ac mewn lleoedd lle na fyddai'r farchnad yn darparu fel arall.

A1.28 Awgrymodd un rhanddeiliad fod angen buddsoddiad gan y llywodraeth i gyflawni'r ymrwymiad gwasanaeth cyffredinol ar gyfer rhwydweithiau Mynediad y Genhedlaeth Nesaf (NGA) a band eang.

A1.29 Roedd Pwyllgor Ymgynghorol Lloegr wedi cynnig y dylai Ofcom ganolbwyntio ar anghenion defnyddwyr gwledig wrth wneud gwaith ar fand eang cyflym iawn. Roedd rhanddeiliad arall yn poeni y byddai canolbwyntio ar seilwaith BT yn yr atebion Mynediad Lleol Cyfanwerthu yn anwybyddu rhwydweithiau mynediad y genhedlaeth nesaf, sy'n dal pŵer sylweddol yn y farchnad yn eu tyb nhw. Roedd y rhanddeiliad hefyd wedi synnu nad oedd y Cynllun Blynyddol Drafft yn sôn am ymgysylltiad Ofcom gyda BDUK, a oedd yn elfen allweddol o amcanion band eang y llywodraeth.

A1.30 *Rydym wedi cydnabod eisoes (yn ein datganiad ym mis Mawrth 2009 ar fand eang cyflym iawn) y gallai mentrau buddsoddi lleol arwain at greu monopolïau lleol, a dan yr amgylchiadau hynny, bydd yn bwysig sicrhau bod cynnyrch cyfanwerthu ar gael sy'n gallu cefnogi cystadleuaeth effeithiol ar lefel adwerthu. Rydym hefyd wedi dynodi ein bod yn bwriadu ystyried, yn ystod y flwyddyn, sut y dylid gweithredu'r pwerau rhannu seilwaith newydd a ddarperir gan y fframwaith UE diwygiedig.*

A1.31 *Mae'r cwestiwn ynghylch cyllid cyhoeddus er mwyn defnyddio rhwydweithiau yn fater i'r llywodraeth o hyd. Byddwn yn parhau i weithio'n frwd â BDUK er mwyn cefnogi cynlluniau band eang y llywodraeth ac yn adlewyrchu hynny yn ein cynllun gwaith ar gyfer 2011/12, yn enwedig ar dudalen 10 a thudalen 29 mewn cysylltiad â'r ymrwymiad gwasanaeth cyffredinol.*

## Mynediad lleol cyfanwerthu (WLA)

A1.32 Cawsom sylwadau ar ein gwaith ar fynediad lleol cyfanwerthu. Roedd un rhanddeiliad telegyfathrebiadau yn anghytuno'n chwyrn â grwpio rhith fynediad lleol heb ei fwndelu (VULA) a mynediad seilwaith ffisegol (PIA) dan deitl yr adolygiad o'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthu. Roedd rhanddeiliaid eraill y diwydiant wedi mynegi pryder fod mynediad cyfanwerthu ar rwydweithiau mynediad y genhedlaeth nesaf yn ddibynnol ar ddefnyddio'r cynnyrch VULA.

A1.33 *Rydym yn ymwybodol o faterion penodol i ddarparwyr cyfathrebiadau penodol ac yn rhoi sylw iddynt lle bo hynny'n briodol yn ein rhaglen waith.*

## Llinellau ar les

A1.34 Dadleuodd un ymatebydd y byddai dadreoleiddio yn y farchnad llinell ar les yn fodd iddo ddiwallu anghenion defnyddwyr a'i wneud yn fwy cystadleuol. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod gan yr adolygiad o linellau les gysylltiadau â marchnadoedd eraill, gan fod gwasanaethau wedi'u bwndelu ar gyfer busnesau yn cynnwys cynnyrch llinellau ar les. Anogodd Ofcom i orffen yr adolygiad o ddyblygedd PPC cyn gynted â phosibl.

A1.35 Awgrymodd ymatebydd cyfathrebiadau y dylai Ofcom ystyried prisiau Ether-rwyd BT. Roedd yn cefnogi'r gofyniad ar BT yn sgil yr adolygiad o'r WLA ac am weld yr un gofynion yn cael eu gosod ar linellau ar les.

A1.36 *Rydym yn gwerthfawrogi sylwadau rhanddeiliaid ar yr adolygiad rydym yn ei chynnal a byddwn yn eu hystyried yn yr adolygiad lle bo hynny'n briodol.*

### Rhifo

A1.37 Cafwyd ystod o bryderon ymysg rhanddeiliaid y diwydiant am ein gwaith ar rifau nad ydynt yn ddaearyddol. Roedd un gweithredwr rhwydweithiau symudol yn holi a oedd ein hymchwil defnyddwyr yn cyfiawnhau ein ffocws ar rifau nad ydynt yn ddaearyddol. Roedd yr un rhanddeiliad yn poeni nad oedd y gwaith arfaethedig ar rifau nad ydynt yn ddaearyddol yn mynd i'r afael â therfynu galwadau cyfanwerthu. Mynegwyd pryder gan weithredwr rhwydweithiau symudol arall y byddai'r atebion posibl a nodwyd gan Ofcom ar gyfer rhifau nad ydynt yn ddaearyddol yn gymhleth ac yn ddrud.

A1.38 *Cynhaliwyd ein hadolygiad er mwyn ymateb i'r pryderon sylweddol ymysg defnyddwyr am ddefnyddio rhifau nad ydynt yn ddaearyddol ac am effeithiolrwydd y trefniadau rheoleiddio presennol. Rydym yn ymwybodol o'r materion rhwydwaith a chyfanwerthu, ond bydd angen ystyried y canlyniadau gofynnol i ddefnyddwyr/adwerthu cyn y gallwn asesu pa newidiadau cyfanwerthu, os o gwbl, sydd efallai eu hangen.*

### Gogwydd costau

A1.39 Gofynnodd rhai rhanddeiliaid p'un ai a fyddai Ofcom yn gwneud gwaith pellach ar ogwydd costau.

A1.40 *Rydym wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ar y gwaith hwn ar dudalen 20.*

## Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon

### Clirio a dyfarnu sbectrwm

A1.41 Roedd gan randdeiliaid llawer o ddiddordeb yn ein blaenoriaeth o ran clirio a dyfarnu sbectrwm. Gofynnodd sawl rhanddeiliad am ragor o wybodaeth am ddefnydd posibl y sbectrwm 600 MHz a pha bryd y byddai'n cael ei ryddhau.

A1.42 Gwnaeth Pwyllgor Ymgynghorol yr Alban sylwadau ar glirio a rhyddhau sbectrwm. Gofynasant i Ofcom gofio bod y sbectrwm rhyngddalennog yn debygol o gael ei ddefnyddio ar gyfer teledu daearol digidol a mynediad y genhedlaeth nesaf yn yr Alban. Credant fod hyn yn benodol berthnasol o ran pecynnu sbectrwm, gan fod angen blociau o 8 MHz ar deledu daearol digidol fel arfer, tra bo band eang symudol yn defnyddio sianelau 5 MHz ar y cyfan.

A1.43 *Rydym wedi diweddaru'r Cynllun Blynyddol gyda rhagor o wybodaeth am y broses clirio a dyfarnu 600 MHz. Rydym yn gwerthfawrogi sylwadau Pwyllgor Ymgynghorol yr Alban a byddwn yn eu cynnwys yn ein rhaglen waith lle bo hynny'n briodol.*

A1.44 Gofynnodd un rhanddeiliad ym maes gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig pa bryd y byddai'n rhaid i ddefnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig roi'r gorau i ddefnyddio'r sbectrwm 790-862MHz. Awgrymodd yr ymatebydd hwn y dylai'r band 2.6 GHz ddal i fod ar gael at ddefnydd gwneud rhaglenni a digwyddiadau

arbennig ar ôl yr arwerthiant, hyd nes y bydd y deiliaid newydd yn dechrau defnyddio'r sbectrwm.

A1.45 *Rhoddir mynediad dros dro i 2.6 GHz ar sail cyfnod rhybudd treigl tri mis a bydd yn dod i rym ar yr adeg y byddwn yn gwahodd ceisiadau ar gyfer dyfarnu 2.6 GHz. Yr eithriad fydd yn yr ardaloedd hynny lle bydd Gemau Olympaidd 2012 yn cael eu cynnal. Yn yr ardaloedd hynny, bydd y band 2.6 GHz yn cael ei ryddhau at ddefnydd camerâu diwifr yn ystod Gemau Olympaidd 2012. Cyn gynted ag y bydd Gemau Olympaidd 2012 yn dod i ben, ni fydd yr amleddau hyn ar gael i'w defnyddio yn yr ardaloedd hynny at ddibenion gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig.*

A1.46 O gofio'r cynnydd mewn galw am wasanaethau symudol, awgrymodd un cwmni telegyfathrebiadau y dylai Ofcom archwilio'r materion rheoleiddio cysylltiedig, megis y posibilrwydd o fynediad cyfanwerthu i rwydweithiau symudol, ac y dylai hyn ddigwydd cyn yr arwerthiannau sbectrwm sydd wedi'u cynllunio.

A1.47 *Mae mynediad cyfanwerthu gorfodol yn ymyriad y mae Ofcom yn ei ystyried fel rhan o'i asesiad o gystadleuaeth yn y dyfodol mewn marchnadoedd symudol, wrth baratoi ar gyfer dyfarnu'r bandiau 800 MHz a 2.6 GHz.*

A1.48 Dadleuodd un gweithredwr rhwydweithiau symudol y byddai rhyddhau deiliadaeth 900 MHz y gweithredwyr rhwydweithiau symudol presennol yn ystumio cystadleuaeth yn yr hirdymor, a gofynnodd i Ofcom roi sylw i hyn drwy ei brosesau asesu cystadleuaeth a chynllunio arwerthiant.

A1.49 *Mae asesiad Ofcom o gystadleuaeth yn y dyfodol mewn marchnadoedd symudol, er mwyn paratoi ar gyfer dyfarnu'r bandiau 800 MHz a 2.6 GHz, yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeiliadaeth sbectrwm arall sy'n addas i symudol gan ddeiliaid trwydded presennol.*

A1.50 Gofynnodd un corff defnyddwyr i Ofcom ystyried sut i reoli proses rhyddhau'r difidend digidol er mwyn darparu gwasanaethau cyfathrebiadau i gymunedau gwledig.

A1.51 *Mae Ofcom yn pryderu ynghylch yr anghyfartaledd o ran y gwasanaeth symudol sydd ar gael mewn gwahanol rannau o'r wlad. Y llynedd, gwnaethom gynnal ymchwil i gael gwell dealltwriaeth o natur, y rhesymau ac effeithiau ardaloedd digyswllt symudol. Mae dyfarnu trwyddedau newydd yn gyfle posibl i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Caiff ein cynigion yn hyn o beth eu cyhoeddi fel rhan o'n ymgynghoriad ar ddyfarnu'r bandiau 800 MHz a 2.6 GHz.*

## Gofod gwyn

A1.52 Roedd nifer o randdeiliaid wedi annog Ofcom i gynnal rhagor o waith ar ofod gwyn yn y sbectrwm.

A1.53 *Rydym wedi rhoi sylw i'r gwaith y byddwn yn ei wneud ar ofod gwyn ar dudalen 21.*

## Ei gwneud yn haws i brynu a gwerthu sbectrwm ac i lesio sbectrwm

A1.54 Cawsom amrediad o ymatebion ar brynu a gwerthu sbectrwm a lesio sbectrwm. Roedd un rhanddeiliad wedi rhybuddio yn erbyn caniatáu i brosesau prynu a gwerthu sbectrwm ymyrryd â'r gweithdrefnau presennol, a dywedodd y byddai costau gweithredu yn drech nag unrhyw fanteision. Fodd bynnag, awgrymodd rhanddeiliad arall y dylai Ofcom annog marchnad sbectrwm eilaidd fel na fyddai angen i Ofcom ddefnyddio'r farchnad sbectrwm cynradd i'r fath raddau fel offeryn cynllunio a rheoli yn y tymor hirach.

A1.55 *Rydym yn gwerthfawrogi sylwadau'r rhanddeiliaid hyn a byddwn yn ymateb iddynt yn ein rhaglen waith fel y bo'n briodol.*

### Cytgordio sbectrwm yn rhyngwladol

A1.56 Mynegwyd pryder gan un corff masnach y diwydiant nad oedd y sbectrwm sector cyhoeddus wedi'i gytgordio ledled Ewrop. Hefyd, gofynnodd i Ofcom roi sylw penodol i'r Cynllun Polisi Sbectrwm Radio, a galwodd ar yr UE i gydlynu proses o nodi sbectrwm dan 1 GHz er mwyn cytgordio gwasanaethau band eang amddiffyn y cyhoedd a chymorth adeg trychinebau.

A1.57 *Bydd Ofcom yn chwarae rhan lawn a gweithredol wrth roi sylw i'r cynigion a amlinellwyd yn y Cynllun Polisi Sbectrwm Radio. Mae Ofcom yn ymwybodol, fel y gwelir yn y Cynllun Polisi Sbectrwm Radio, y bydd angen sbectrwm ychwanegol o bosibl ar gyfer amddiffyn y cyhoedd a chymorth adeg trychinebau, ac er mwyn rhoi sylw i hyn bydd Ofcom yn cyfrannu at Weithgorau perthnasol y Pwyllgor Cyfathrebiadau Electronig a fydd yn cefnogi'r gwaith hwnnw. Hefyd, bydd Ofcom yn parhau i gefnogi buddiannau'r DU mewn cysylltiad â Chynhadledd Radio'r Byd.*

### Gorfodi sbectrwm a rhoi sylw i ymyrraeth

A1.58 Soniodd rhanddeiliaid am bwysigrwydd rhoi sylw i ymyrraeth ac roeddent yn cefnogi gwaith Ofcom sy'n cynnwys mynd i'r afael â darlledu anghyfreithlon, ymchwiliadau i ymyrraeth, a chynllunio gwaith i osgoi neu liniaru materion ymyrraeth. Yn benodol, codwyd pryderon gan randdeiliaid am offer, radio amatur, darlledu a gwasanaethau symudol 4G, a'r ymyrraeth i wasanaethau microdon o dyrbinau gwynt.

A1.59 *Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater pwysig i randdeiliad a chaiff hyn ei adlewyrchu yn ein gweithgareddau penodol fel y bo'n briodol.*

## Helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr

### Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn gwella hwylustod newid rhwng darparwyr cyfathrebiadau i ddefnyddwyr

A1.60 Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr yn cefnogi ein gwaith ar newid cyflenwyr ac ar y broses sy'n cael ei arwain gan y cyflenwr sy'n ennill y cwsmer. Dywedodd sawl ymatebydd mai eu hargraff nhw oedd bod y niferoedd sy'n newid cyflenwyr yn y farchnad yn isel. Dyma rai o'r materion eraill a godwyd:

- Dylem edrych ar newid o safbwynt y farchnad cyfathrebiadau adwerthu drwyddi draw, yn hytrach na fesul sector, a chynigwyd y dylai rheoleiddwyr gymryd camau gweithredu wedi'u cydlynu ar draws sectorau i roi sylw i newid cyflenwyr.

- Dylai Ofcom gefnogi dull hunan-reoleiddio ar gyfer y diwydiant a darparu trosolwg.

- Safoni prosesau newid band eang ar draws technolegau.

- Ni roddwyd blaenoriaeth i brosesau newid cyflenwyr symudol. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth yn 2011/12.

A1.61 Gwnaethpwyd sylwadau hefyd ar gontractau sy'n cael eu hadnewyddu'n awtomatig. Roedd un unigolyn preifat yn cynnig y dylai fod yn orfodol i roi rhybudd wrth ddynesu at ddiwedd contract. Hefyd, roedd un rhanddeiliad y diwydiant yn awgrymu y gallai

contractau sy'n cael eu hadnewyddu'n awtomatig achosi niwed i gystadleuaeth, yn enwedig wrth eu cyfuno â chyfnodau contract sylfaenol gyda ffioedd terfynu cynnar.

A1.62 *Mae newid cyflenwyr yn flaenoriaeth i Ofcom dros y flwyddyn nesaf ac mae ein hadolygiad strategol yn ymgorffori newid ar draws holl farchnadoedd cyfathrebiadau'r DU: telegyfathrebiadau sefydlog a symudol, band eang a theledu drwy dalu. Yn y lle cyntaf, rydym yn rhoi blaenoriaeth i newid llinellau sefydlog a band eang, oherwydd dyma le mae'r problemau mwyaf yn ein barn ni. Ar ôl pwyso a mesur y materion cychwynnol, rydym yn bwriadu ystyried gwneud newidiadau i'r broses cludo rhifau symudol.*

A1.63 *Mae Ofcom yn bwriadu ymgynghori yn yr haf ar y broses newid orau ar gyfer telegyfathrebiadau sefydlog a band eang gan ddefnyddio'r prosesau Hysbysu am Drosglwyddo (NoT) a'r Côd Awdurdodi Mudo (MAC). Bydd yr ymgynghoriad hwn yn pwyso a mesur dewisiadau sy'n cael eu datblygu yn ein Gweithgor Newid.*

A1.64 *Mae Ofcom hefyd o'r farn y gallai cytgordio prosesau newid, yn enwedig mewn cysylltiad â gwasanaethau unigol, arwain at fanteision ychwanegol sylweddol i ddefnyddwyr, oherwydd gallent helpu i leihau'r cymhlethdod ynghylch pa broses sydd ei hangen arnynt.*

## Sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau yn darparu gwybodaeth glir er mwyn i ddefnyddwyr band eang allu gwneud dewisiadau gwybodus

A1.65 Roedd un rhanddeiliad darlledu yn dadlau fod gwybodaeth dryloyw i ddefnyddwyr am wasanaethau band eang yn bwysig ac y dylai Darparwyr Gwasanaethau Rhyngrwyd ddarparu datganiadau clir ynghylch safon eu gwasanaeth a'u polisïau rheoli traffig.

A1.66 Roedd un gweithredwr symudol o'r farn bod y côd hunan-reoleiddio ar hyrwyddo band eang symudol wedi meithrin hyder defnyddwyr ac y caiff hyn ei gryfhau eto fyth yn 2011/12 gan fwy o dryloywder ynghylch rheoli traffig.

A1.67 Dywedodd un ymatebydd undeb llafur nad yw dibynnu ar y farchnad i ddarparu niwtraliaeth net yn ddigonol, ac y byddai gweithredu pellach yn ddymunol.

A1.68 *Mae Ofcom o'r farn y dylai defnyddwyr gael gwybodaeth glir am sut mae eu gwasanaethau band eang yn gweithredu, yn cynnwys sut y caiff traffig ei reoli. Fel y nodir yn ein Cynllun Blynyddol, byddwn yn cynnal ymchwil ac yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni; rydym wedi rhoi rhagor o fanylion ar ein gwaith ar dudalen 14. Rydym yn adolygu ein pwerau dan y Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd a byddwn yn cymryd camau lle bo angen i atal niwed i ddefnyddwyr.*

## Sicrhau bod digon o wasanaethau'n cael eu darparu i ddefnyddwyr â nam ar eu clyw

A1.69 Cawsom amrediad eang o sylwadau gan randdeiliaid y diwydiant a defnyddwyr ar wasanaethau cyfnewid yn gyffredinol, ac yn benodol am oedran a swyddogaeth y gwasanaeth cyfnewid testun presennol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Manteision posibl gwasanaethau cyfnewid fideo (VRS) ac y dylai Ofcom hyrwyddo'r gwasanaeth hwn.
- Pwysigrwydd cystadleuaeth a dewis o ran darparwyr gwasanaeth cyfnewid.

- Efallai y byddai'n ddymunol sicrhau bod datblygu offer terfynell ar gyfer defnyddwyr gydag anableddau yn orfodol.

- Pa mor bwysig yw argaeledd ffonau symudol a diwifr, yn enwedig ffonau sy'n gweithio gyda chymhorthion clyw, ac a allai'r DU fabwysiadu'r un safonau â'r rheini yn yr Unol Daleithiau er mwyn sicrhau bod amrediad ehangach o gynnyrch ar gael.

- Awgrymodd BT fod y Ddyletswydd Cyfnewid Testun bresennol yn annheg ac ni ddylent orfod darparu ar gyfer y rheini nad ydynt yn gwsmeriaid adwerthol iddynt.

A1.70 *Mae ein hadolygiad o wasanaethau cyfnewid, ar dudalen 23, yn ddarn pwysig o waith i Ofcom yn 2010/11. Bydd yn asesu'r trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau cyfnewid, yn nodi'r bylchau mewn darpariaeth er mwyn cyflawni'r un lefelau, ac ystyried atebion cymesur.*

A1.71 Roedd sawl rhanddeiliad wedi pwysleisio pwysigrwydd ymchwil er mwyn deall anghenion defnyddwyr cyn bod Ofcom yn gwneud unrhyw ymyriad. Awgrymasant mewn rhai achosion na fyddai llawer yn manteisio ar y gwasanaethau, ac y byddai defnyddwyr yn defnyddio mecanweithiau eraill i gyfathrebu, megis SMS.

A1.72 *Mae ymchwil marchnad diweddar Ofcom yn ein helpu i ddeall y bylchau yn y farchnad a rhoi anghenion telegyfathrebu'r rheini gydag anawsterau clywed a/neu siarad yng nghyd-destun gwasanaethau a thechnolegau eraill. Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at y ffaith bod y rheini ag anawsterau clywed a/neu siarad yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu, megis SMS ac e-bost, ond maent hefyd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth cyfnewid testun. Mae'n bosibl bod gwelliannau eraill y gellid eu gwneud, gan fod galw am wasanaethau cyfnewid ychwanegol yn cynnwys teleffoni â chapsiynau a chyfnewid fideo ar gyfer defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain.*

## Offer hawdd ei ddefnyddio

A1.73 Dywedodd un corff defnyddwyr y byddai'n hoffi gweld y DU/CE yn symud tuag at sefyllfa lle mae ffonau symudol a diwifr prif ffrwd sy'n addas ar gyfer defnyddwyr cymhorthion clyw ar gael yn gymesur, gan ddefnyddio dulliau profi y cytunwyd arnynt gan y CE os oes angen.

A1.74 *Byddai unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath yn fater i'r UE, oherwydd caiff 'nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu' eu rheoleiddio ar lefel Ewropeaidd. Bydd Ofcom yn parhau i weithio gydag eraill i symud ymlaen ym maes offer defnydd hygyrch.*

A1.75 Roedd grŵp ymgyrch defnyddwyr wedi galw am sicrhau bod darparu offer terfynell hawdd ei ddefnyddio yn orfodol.

A1.76 *Nid oes gan Ofcom bwerau dan y Ddeddf Cyfathrebu mewn perthynas ag offer a ddefnyddir gan ddefnyddwyr. Mae'r Gyfarwyddeb Gwasanaeth Cyffredinol ddiwygiedig yn mynnu bod Aelod-wladwriaethau yn hybu argaeledd offer terfynell sy'n cynnig y gwasanaethau a'r swyddogaethau angenrheidiol. Mae llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bwriad i gyflawni'r ddyletswydd hon drwy ei fforwm e-Hygyrchedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau eraill pan fo'n bosibl er mwyn symud ymlaen yn y maes hwn.*

### Parhau i hyrwyddo buddsoddiad a fyddai'n mynd i'r afael ag ardaloedd digyswllt band eang a symudol

A1.77 Soniodd amrywiaeth o randdeiliaid am ein gwaith ar ddarpariaeth symudol. Roedd Pwyllgor Ymgynghorol Gogledd Iwerddon wedi ailadrodd eu pryder ynghylch lefel y ddarpariaeth symudol ledled Gogledd Iwerddon.

A1.78 *Mae'r mater hwn yn dal yn bwysig i Ofcom ac mae'n faes gwaith pwysig i ni. Rydym wedi cael y canfyddiadau o astudiaeth Dyfnaint ac yn eu hystyried ar hyn o bryd ac mae gennym ragor o waith yn mynd rhagddo fel yr eglurir ar dudalen 25.*

A1.79 Roedd un corff masnach yn y diwydiant wedi dadlau am grwydro cenedlaethol mandedig rhwng rhwydweithiau symudol.

A1.80 *Mae gweithredwyr symudol eisoes yn gallu gweithredu trefniadau crwydro ar sail fasnachol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu crwydro cenedlaethol mandedig yn y gorffennol. I gael rhagor o wybodaeth edrychwch ar ein diweddariad a gyhoeddwyd ar ardaloedd digyswllt symudol yma.*

### 999 SMS

A1.81 Cawsom nifer o sylwadau ar 999 SMS, nad oedd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Blynyddol drafft. Holodd dau randdeiliad pam nad oedd sôn am ein gwaith ar weithredu SMS achosion brys, ac roedd un gweithredwr rhwydweithiau symudol wedi cwestiynu pam cafodd y gwasanaeth 999 SMS ei wneud yn orfodol pan oedd y dull gwirfoddol eisoes yn gweithio.

A1.82 *Mae Ofcom yn ymgynghori ynghylch ei gynnig i orchymyn gwasanaeth SMS ar gyfer pobl sydd â nam ar eu clyw a phobl sydd â nam ar eu lleferydd ac ystyried ein dyletswyddau newydd dan y fframwaith rheoleiddio Ewropeaidd.* Yn ein hymgynghoriad yma, ein barn ni yw bod y cynllun prawf wedi dangos pwysigrwydd gwasanaeth sy'n gadarn, yn gyson ac yn gwbl ddibynadwy. *Gallai hyd yn oed risg fach o weithredwr rhwydweithiau symudol yn tynnu'n ôl o'r gwasanaeth arwain at effeithiau difrifol i ddefnyddwyr agored i niwed sydd wedi dod i ddibynnu ar y gwasanaeth.*

## Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau

### Radio masnachol

A1.83 Gofynnodd nifer o randdeiliaid i ni adolygu'r penderfyniad ynghylch trwyddedu analog yn 2011/12 ac ehangu cwmpas yr adolygiad i gynnwys y broses drwyddedu drwyddi draw. Er eu bod yn cefnogi'r newidiadau diweddar i'r Côd Darlledu, roeddent yn dadlau dros fwy o hyblygrwydd o ran nawdd, cyfeiriadau masnachol a threfniadau masnachol sy'n ymwneud â dewis cerddoriaeth.

A1.84 *Rydym wedi darparu mwy o wybodaeth am ein rhaglen waith ar dudalen 25. Tu hwnt i hyn, rydym wedi mynegi'r bwriad i adolygu ein penderfyniadau trwyddedu diweddar yn ein Hadolygiad o'r Côd Darlledu yma.*

### Amddiffyn plant a phobl ifanc dan 18 oed

A1.85 Roedd un gweithredwr rhwydweithiau symudol wedi dadlau bod hunan reoleiddio safonau ar gyfer amddiffyn plant a phobl ifanc dan 18 oed yn llwyddo, ac roedd arno eisiau deall rhesymau Ofcom dros fod yn fwy gweithredol yn hyn o beth.

A1.86 *Mae gennym ddyletswydd statudol i roi ystyriaeth benodol i fregusrwydd plant wrth benderfynu beth sy'n golygu amddiffyniad digonol rhag niwed posibl.*

### Radio cymunedol

A1.87 Gofynnodd ymatebydd o radio cymunedol i Ofcom gyhoeddi mwy o drwyddedau ar gyfer radio cymunedol, er mwyn galluogi ei orsaf i ddarlledu cynnwys lleol i'r gymuned.

A1.88 *Rydym wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn y Cynllun Blynyddol, tudalen 26, gan y byddwn yn gwahodd ceisiadau ar gyfer y drydedd rownd o drwyddedau radio cymunedol. Y rhanbarth gyntaf fydd Cymru a De Orllewin Lloegr. Bydd rhannau eraill o'r DU yn dilyn.*

## Cyfrannu at bolisi cyhoeddus fel y diffinnir gan y Senedd a'i weithredu

### Gweithredu darpariaeth Deddf Economi Ddigidol 2010 ar dorri hawlfraint ar-lein

A1.89 Roedd nifer o randdeiliaid wedi gofyn am eglurder ynghylch gwaith Ofcom mewn perthynas â'r Ddeddf Economi Ddigidol, gan gynnwys amserlenni ac ymgysylltiad rhanddeiliaid. Roedd pryderon penodol hefyd mewn perthynas ag amddiffyn hawliau a buddiannau defnyddwyr, gofynion adrodd cymesur ac awgrymiadau ynghylch cyllido'r darpariaethau.

A1.90 *Mae ein proses ymgynghori ynghylch y Côd Dyletswyddau Cychwynnol arfaethedig wedi dod i ben ac rydym yn disgwyl y byddwn mewn sefyllfa cyn bo hir i gyhoeddi'r Côd drafft. Caiff hwn ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn iddo ei ystyried ac wedyn i'r Senedd. Bydd Ofcom yn cadarnhau amserlen ddiwygiedig pan geir eglurder ynghylch taith y Côd Dyletswyddau Cychwynnol drafft drwy'r Comisiwn Ewropeaidd a'r Senedd.*

A1.91 *Mae'r Ddeddf yn rhagweld y bydd Ofcom yn adrodd ar ystod eang o fesurau, gan gynnwys mesurau a gymerir gan berchnogion hawlfraint i hybu'r defnydd a wneir o wasanaethau cyfreithiol. Y llywodraeth, yn hytrach nag Ofcom, sy'n gyfrifol am ddosrannu costau.*

### Paratoi adroddiad statudol i'r llywodraeth ar drefniadau trwyddedu ar gyfer sianeli 3 a 5 ar ôl 2014

A1.92 Gofynnodd Pwyllgor Ymgynghorol Lloegr sut byddai'r adroddiad yn ystyried rhaglenni a newyddion rhanbarthol. Gofynnodd rhanddeiliad arall am ystyried newyddion ITV ar gyfer Cymru fel gofyniad newyddion Cenedlaethol i Gymru, yn hytrach na gwasanaeth rhanbarthol yn nhrwydded sianel 3 ar ôl 2014.

A1.93 *Wrth baratoi ein hadroddiad, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i gyfraniad dyletswyddau sy'n ymwneud â'r gwledydd a'r rhanbarthau at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus dros gyfnod y drwydded nesaf.*

### Adroddiad seilwaith cenedlaethol

A1.94 Gofynnodd nifer o ymatebwyr o'r diwydiant i Ofcom ystyried pwysigrwydd sbectrwm mewn perthynas â seilwaith cenedlaethol y DU.

A1.95 *Fel rhan o'n dyletswydd i adrodd ar seilwaith y DU dan y Ddeddf Economi Ddigidol, rydym yn bwriadu adrodd ar ddefnyddio sbectrwm gan ddefnyddio'r Tabl Dyrannu Amledd a data trwyddedu Ofcom. Mae hyn yn cynnwys sbectrwm a drwyddedir i sicrhau perfformiad a diogelwch seilwaith cenedlaethol y DU.*

A1.96 Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i ni rannu canfyddiadau ein hadroddiad seilwaith â'r llywodraethau datganoledig yn y DU i'w helpu i lunio polisïau cyhoeddus.

A1.97 *Mae'r Ddeddf Economi Ddigidol yn mynnu bod Ofcom yn darparu adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae hefyd yn mynnu ein bod yn cyhoeddi adroddiad cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl iddo gael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol a, phan fo'n briodol, ei dynnu at sylw unigolion sy'n debyg o fod â diddordeb ynddo.*

## Paratoi ar gyfer dyletswyddau rheoleiddio mewn perthynas â phost a'u cyflawni

A1.98 Mae rhai rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at gyn lleied o sôn sydd am y sector post yn y Cynllun Blynyddol Drafft, ac maent wedi codi nifer o faterion rheoleiddio sy'n ymwneud â phost.

A1.99 *Gan fod dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â'r sector post yn destun deddfwriaeth barhaus, byddai'n amhriodol trafod rheoleiddio post nes i'r Mesur Gwasanaethau Post gael Cysyniad Brenhinol. Rydym yn paratoi, pan fo'n briodol, fel yr amlinellir ar dudalen 15.*

## Gweithredu polisïau rhyngwladol

A1.100 Dywedodd rhanddeiliad telegyfathrebiadau y byddai'n disgwyl gweld ymgynghoriadau ar nifer o oblygiadau'r cyfarwyddebau UE diwygiedig a'r pwerau newydd a roddir i Ofcom.

A1.101 *Ar 24 Chwefror cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad ynghylch ei gynigion i ddiwygio'r Amodau Cyffredinol a'r Amodau Gwasanaeth Cyffredin sy'n ofynnol er mwyn gweithredu Fframwaith Cyfathrebiadau Electroneg diwygiedig yr UE. Pan fydd Fframwaith yr UE yn cynnwys pwerau caniataol newydd, mae Ofcom yn bwriadu adolygu'r angen i ddefnyddio pwerau o'r fath, o fis Mai ymlaen.*

## Llythrennedd yn y Cyfryngau

A1.102 Roedd Pwyllgorau Ymgynghorol yr Alban, Gogledd Iwerddon a Defnyddwyr Hŷn ac Anabl, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, yn nodi pwysigrwydd ein hymchwil i fonitro datblygiadau yn y farchnad, ac yn enwedig llythrennedd yn y cyfryngau.

A1.103 *Yn 2011/12, byddwn yn parhau i gynnal yr ymchwil i lythrennedd plant ac oedolion yn y cyfryngau, cyhoeddi adroddiadau archwilio a chanolbwyntio ein hymdrechion i sicrhau bod ein harolygon yn cefnogi ac yn cyfrannu at waith rhanddeiliaid.*

## Teledu Lleol

A1.104 Roedd Pwyllgor Ymgynghorol yr Alban yn eiriol dull cydgysylltiedig ar gyfer polisi band eang a darlledu er mwyn sicrhau bod cynnwys lleol yn cael ei ddefnyddio. Roeddent hefyd yn dadlau dros ddull gweithredu gwahaniaethol at newyddion lleol a darpariaeth yn y cyfryngau ledled y gwledydd a'r rhanbarthau, yn enwedig yn yr Alban, oherwydd pryderon yn ymwneud â lluosogrwydd a gwasanaethau newyddion

Albanaidd. Rhybuddiodd Pwyllgor Ymgynghorol Lloegr yn erbyn bwlch posibl mewn cynnwys, petai ITV yn dod â rhaglenni rhanbarthol i ben cyn i wasanaethau teledu lleol gael eu sefydlu'n llawn.

A1.105 *Mae teledu lleol yn fater i'r llywodraeth a chaiff ei arwain gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Mae Ofcom yn darparu cyngor technegol a rheoleiddiol.*

## Ymatebion eraill

A1.106 Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebion a gafwyd yn ymwneud â rhannau o'r Cynllun Blynyddol, roedd ymatebwyr hefyd wedi sôn am feysydd gwaith eraill.

### Cyd-reoleiddio

A1.107 Roedd un corff masnach o'r farn y dylai Ofcom gefnogi corff cyd-reoleiddio er mwyn dod â grwpiau rheoleiddio a'r diwydiant ynghyd mewn rhwydweithiau a gwasanaethau.

A1.108 *Mae Ofcom yn cefnogi defnyddio hunan-reoleiddio a chyd-reoleiddio pan fydd hynny'n effeithiol. Rydym yn nodi'r cynnig y dylai'r diwydiant gymryd yr awenau o ran sefydlu fforwm cyd-reoleiddio a bydd yn dilyn y datblygiadau â diddordeb.*

### Rhoi gwifrau telegraff dan y ddaear

A1.109 Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith nad oedd y Cynllun Blynyddol Drafft yn cyfeirio at gynlluniau i roi gwifrau a cheblau ffôn mewn parciau cenedlaethol dan y ddaear, ac roedd yn galw am gefnogaeth gyhoeddus ac ar y cyd gan Ofcom ac Ofgem.

A1.110 *Mae Ofcom yn croesawu mentrau rhannu seilwaith o'r math hwn. Efallai y byddwn yn ystyried potensial cynlluniau o'r fath wrth i ni wneud ein gwaith ar weithredu atebion a defnyddio ein pwerau rhannu seilwaith newydd dan y fframwaith UE diwygiedig ar gyfer rheoleiddio telegyfathrebiadau.*